

**BOUNDARY COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN FFINIAU I GYMRU**

**FOURTH PERIODICAL REPORT
PEDWERYDD ADRODDIAD CYFNODOL**

*Presented to Parliament pursuant to Section 3(5) of
the Parliamentary Constituencies Act 1986*

*Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 3(5)
o'r Parliamentary Constituencies Act 1986*

*Ordered by the House of Commons to be printed
15 February 1995*

*Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin
15 Chwefror 1995*

LONDON: HMSO

195

£18.20 net

195

£18.20 net

COMISIWN FFINIAU I GYMRU
PEDWERYDD ADRODDIAD CYFNODOL

English

Clwyd
Dyfed
Gwent
Gwynedd
Mid Glamorgan
Powys
South Glamorgan
West Glamorgan

Welsh

Clwyd
Dyfed
Gwent
Gwynedd
Morgannwg Ganol
Powys
De Morgannwg
Gorllewin Morgannwg

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

YN UNOL AG Atodlen 1 i'r Parliamentary Constituencies Act 1986, cafodd y Comisiwn ei gyfansoddi fel a ganlyn:

Aelod yn Rhinwedd ei Swydd
LLEFARYDD Tŷ'R CYFFREDIN, *Cadeirydd*.

A thri Aelod arall
YR ANRHYDEDDUS MR USTUS PILL, *Dirprwy Gadeirydd*
wedi ei benodi
gan yr Arglwydd Ganghellor.

MR W PETER DAVEY, CBE DL IPFA,
wedi ei benodi gan Ysgrifennydd Gwladol
yr Adran Gartref.


MR MURRAY A MCLAGGAN, YH MA,
wedi ei benodi gan Ysgrifennydd
Gwladol Cymru.

Aseswyr
COFRESTRYDD CYFFREDINOL CYMRU A LLOEGR.
CYFARWYDDWR CYFFREDINOL YR AROLWG ORDNANS.

Cyd-ysgrifenyddion
Mr R McLeod
Mrs J S Morris (tan 14 Hydref 1994)
Mr G P Utteridge (o 21 Hydref 1994)
wedi eu penodi gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref.

CYNNWYS

		<i>Tudalen</i>
CYFLWYNIAD		2
Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref		2
Deddfwriaeth		4
AMSERIAD YR AROLWG CYFFREDINOL		4
Y RHEOLAU		6
Y DREFN		10
YMCHWILIADAU LLEOL		10
DOSBARTHU SEDDI		12
YR ARGYMHELLION		14
Clwyd		14
Dyfed.		22
Gwent		28
Gwynedd		32
Morgannwg Ganol		36
Powys		38
De Morgannwg		42
Gorllewin Morgannwg		44
AIL YMCHWILIADAU - ADRAN 6(3) o'r Parliamentary Constituencies Act 1986.		48
EFFEITHIAU'R ARGYMHELLION		48
Nifer yr Etholaethau		48
Nifer yr Etholwyr		50
Cydberthynas ag Etholaethau Presennol.		50
Cydberthynas â Dosbarthau		50
Cysondeb		50
CYFFREDINOL		50
ATODIAD A Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi.		54
" B (a) Mynegai i'r etholaethau a argymhellir.		58
(b) Yr etholaethau a argymhellir o sir i sir: eu cyfansoddiad a niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993).		60
" C Yr etholaethau presennol a'r ffordd y'u rhennir rhwng siroedd a dosbarthau.		76
" D Hysbysiadau Newyddion y Comisiwn dyddiedig:		
(a) 9 Tachwedd 1993.		78
(b) 25 Mawrth 1994.		80
" E Rhestr o'r etholaethau a argymhellir yn nhrefn niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993):		
(a) O sir i sir.		84
(b) Yn ôl pellter o'r cwota etholiadol.		86
(c) Yn ôl pellter o'r cyfartaledd sirol.		88
" F Rhestr o'r siroedd: niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993), eu hawl ddamcaniaethol a nifer y seddi a neilltuwyd iddynt, ynghyd â niferoedd etholwyr y dosbarthau.		92
" G Datganiad y Comisiwn ar ddefnyddio'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg.		94
" H Rhestr o'r Comisiynwyr Cynorthwyol a gynhaliodd ymchwiliadau lleol, gyda dyddiadau'r ymchwiliadau hynny.		96
" I Testun taflen yr Ymchwiliadau.		98
" J Rhestri o'r wardiau dosbarth, a nifer etholwyr pob un ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993).		106
" K Rhestr o'r etholaethau presennol yn nhrefn niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993):		
(a) O sir i sir.		124
(b) Yn ôl pellter o'r cwota etholiadol.		126
(c) Yn ôl pellter o'r cyfartaledd sirol.		128
GEIRFA A BYRFODDAU		132



NODYN YNGLŶN Â'R MAPIAU

Cafodd y mapiau ar gyfer pob sir a gynhwysir gyda'r adroddiad hwn eu cynhyrchu gan yr Arolwg Ordnans a gellir eun gweld mewn poced yng nghefn yr adroddiad.

Dangosir ffiniau ac enwau'r etholaethau seneddol presennol mewn glas. Dangosir ffiniau ac enwau'r etholaethau seneddol a argymhellir mewn coch.

Mae trosgaen pob map yn dangos ffiniau'r dosbarthau a'r wardiau dosbarth ynghyd â ffiniau'r etholaethau seneddol a argymhellir mewn coch.

Comisiwn Ffiniau i Gymru

Adroddiad ar y Pedwerydd Arolwg Cyffredinol o Etholaethau Seneddol o dan The Parliamentary Constituencies Act 1986.

AT Y GWIR ANRHYDEDDUS MICHAEL HOWARD, QC AS

Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros yr Adran Gartref.

CYFLWYNIAD

1. Yr ydym ni, Comisiwn Ffiniau i Gymru, wedi ein sefydlu a'n cyfansoddi o dan yr Atodlen Gyntaf i'r Parliamentary Constituencies Act 1986 (a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn fel Deddf 1986) er mwyn trefnu arolwg parhaol o ddosbarthiad seddi ar gyfer etholiadau seneddol, yn unol ag Adran 2(1) o'r Ddeddf honno. O dan Adran 3(1) o Ddeddf 1986, yr oedd yn ofynnol inni gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, heb fod yn llai na deng mlynedd nac yn fwy na phymtheng mlynedd o ddyddiad cyflwyno'n hadroddiad cyfnodol blaenorol, adroddiad yn dangos yr etholaethau yr argymhellwn rannu Cymru iddynt yn unol â'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi. Mae'r Rheolau hyn, sy'n rhan o'r Ail Atodlen i Ddeddf 1986, wedi eu nodi yn Atodiad A i'r adroddiad presennol.

2. Cyflwynwyd ein hadroddiad blaenorol ar arolwg cyfnodol (Gorch. 8798) ar 21 Ionawr 1983. Gweithredwyd ein hargymhellion gan Orchymyn mewn Cyngor a wnaed ar 16 Mawrth 1983 (OS 1983 Rhif 418). Oddi ar hynny, ymgwymerwyd â thri arolwg dros dro o dan Adran 3(3) o Ddeddf 1986, gan argymhell addasiadau i ffiniau etholaethau ac i enwau tair sedd. Cynhaliwyd yr arolygon er mwyn dileu anghysonderau wedi eu hachosi gan newidiadau i ffiniau llywodraeth leol. Offerynnau Statudol yw'r Gorchymynion mewn Cyngor a wireddodd y diwygiadau hyn:—

OS 1986 Rhif 2231 (gan effeithio ar etholaethau yn siroedd Clwyd, Gwynedd a Phowys)

OS 1987 Rhif 2050 (gan effeithio ar etholaethau yn siroedd Dyfed, Gwent, Morgannwg Ganol, Powys a Gorllewin Morgannwg)

OS 1993 Rhif 227 (gan effeithio ar etholaethau yn siroedd Dyfed a Phowys)

3. Dyma'r pedwerydd adroddiad cyfnodol i ymdrin â Chymru gyfan. Mae cynnwys y 40 etholaeth a argymhellwn wedi ei nodi yn Atodiad B(b).

Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref

4. Ymchwiliodd Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin i'r rheolau a'r drefn bresennol ar gyfer ailddosbarthu seddi. Pryderent ynglŷn â'r cynnydd cronus yn nifer etholaethau'r Deyrnas Unedig yn sgîl arolygon a gynhaliwyd ers 1950. Ym mis Chwefror 1987, cyhoeddodd y Pwyllgor eu Hail Adroddiad ar gyfer Sesiwn 1986–87 (HC 97-1).

5. Ym 1950, yr oedd gan Gymru hawl i 36 o seddi, gan godi i 38 ym 1983. O ganlyniad i'r arolwg hwn, yr ydym yn cynnig 40 sedd gan mai 39 yw hawl ddamcaniaethol pob sir gyda'i gilydd a chan y parheir i argymhell sedd ychwanegol i Wynedd oherwydd ystyriaethau daearyddol arbennig yn y sir honno. Wrth argymhell yn nifer hwn o seddi, cadwn mewn cof i'r Pwyllgor Materion Cartref hwythau argymhell na ddylai cyfanswm etholaethau Cymru fod yn sylweddol fwy na 38. Fodd bynnag, nes diwygio'r dull ar gyfer pennu'r cwota etholiadol, ni welwn ond ychydig o ragolwg y bydd yr hawl yn gostwng.

6. Y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi (gweler Atodiad A) yw'r rheswm dros y cynnydd graddol yn nifer y seddi. Mae paragraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 1986 yn diffinio'r cwota etholiadol (y ffigur y dylai etholaethau ei adlewyrchu'n fras) fel cyfanrif etholwyr Cymru wedi ei rannu gan nifer presennol y seddi. Felly, caiff unrhyw seddi ychwanegol a greir mewn un arolwg o dan Reolau 5 a 6 (cysondeb etholiadol a daearyddiaeth) eu cynnwys yn y rhannydd ar gyfer pennu cwota etholiadol yr arolwg nesaf, gan roi effaith "clieid ddannedd".

7. Argymhellodd y Pwyllgor sefydlogi maint Tŷ'r Cyffredin yn ôl ei lefel bresennol trwy ddefnyddio rhannydd parhaol (h.y. 36 yng Nghymru) ar gyfer pennu'r cwota etholiadol. Ymatebodd y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor yn Chwefror 1988 (Gorch. 308). Cydymdeimlent â barn y Pwyllgor y dylid sefydlogi Tŷ'r Cyffredin yn ôl ei lefel bresennol ond gwrthodwyd dull y rhannydd parhaol ganddynt (am na rôl bob amser yr un nifer o seddi). Ni chynigiwyd unrhyw ddull arall ganddynt yn ei le. Cyfeiriwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn (paragraff 190) at angen newid deddfwriaethol.

8. Derbyniodd y Llywodraeth ddau newid gweinyddol a argymhellodd y Pwyllgor, sef:—

- (a) estyn y cyfnod statudol ar gyfer cyflwyno sylwadau ynglŷn ag argymhellion unrhyw Gomisiwn Ffiniau, o un mis i ddau; a
- (b) pennu'r dyddiad rhifo ar gyfer arolwg fel dyddiad cyhoeddi'r gofrestr etholwyr ddiweddaraf yn lle dyddiad cyhoeddi hysbysiad yn rhoi rhybudd am gychwyn arolwg yn y London Gazette.

Ni wireddwyd y naill na'r llall o'r newidiadau hyn eto. Nodwn mai ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion oedd peidio â chynnig cyflwyno deddfwriaeth benodol i ddelio â mân argymhellion, ond yn hytrach awgrymu eu hymgorffori mewn cynigion deddfwriaethol pan geid cyfle addas. Nodwn na ddigwyddodd hyn eto.

Deddfwriaeth

9. Oddi ar yr arolwg cyfnodol diwethaf, gweithredwyd deddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y ffordd y trefnir yr arolwg hwn. Mae Deddf 1986 yn ategu'r House of Commons (Redistribution of Seats) Acts 1949 i 1979, ynghyd â rhai deddfiadau cysylltiedig. Mae'r Boundary Commissions Act 1992 (Deddf 1992) yn gwneud darpariaeth bellach gyda golwg ar aelodaeth y Comisiynau Ffiniau, amseriad eu hadroddiadau, a'r ffiniau llywodraeth leol y maent i'w cymryd i ystyriaeth yn eu hadroddiadau.

AMSERIAD YR AROLWG CYFFREDINOL

10. Mae Adran 2 o Ddeddf 1992 yn dweud bod rhaid i'r adroddiad gorfodol cyntaf y digwyddai i bob Comisiwn Ffiniau ei lunio ar ôl i'r Ddeddf honno ddod i rym (12 Tachwedd 1992) gael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 31 Rhagfyr 1994 fan bellaf, yn lle pymtheng mlynedd ar ôl dyddiad cyflwyno adroddiad gorfodol diwethaf y Comisiwn. Mae Adran 3 o Ddeddf 1992 yn diwygio Deddf 1986 gyda golwg ar arolygon cyffredinol y dyfodol yn yr ystyr bod "not less than ten or more than fifteen years" ar ôl dyddiad cyflwyno'r adroddiad gorfodol diwethaf i ddarllen "not less than eight or more than twelve years" wedi dyddiad cyflwyno adroddiad gorfodol diwethaf y Comisiwn. Nodwn, fodd bynnag, fod Adran 2(4) o Ddeddf 1992 yn diwygio isadran (2) o Adran 3 o Ddeddf 1986 trwy ddweud "a failure by a Boundary Commission to submit a report within the time limit which is appropriate to that report should not be regarded as invalidating the report for the purposes of any enactment."

11. Ni fyddai gosod 31 Rhagfyr 1994 fel terfyn amser wedi peri unrhyw anhawster neilltuol inni oni bai am y diwygiad i Ddeddf 1986, a gynhwysid yn Adran 3(2) o Ddeddf 1992, ac a gyfarwyddai, at ddibenion cymhwyso Rheolau paragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf 1986 (cydberthynas rhwng etholaethau a rhai ffiniau llywodraeth leol), mai dim ond y ffiniau (yn achos Cymru, y ffiniau sirol) hynny a fodolai ar 1 Mehefin 1994 y dylid eu hystyried mewn adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau. Ein hanhawster oedd na allem fod yn sicr sut y byddai ffiniau sirol Cymru ar 1 Mehefin 1994, gan y rhagwelid newidiadau arbennig yn The Local Government (Wales) Bill a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 1993 (ac y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel y Mesur). Nid yn unig y ceid ansicrwydd ynglŷn â'r ffiniau sirol, ond o fewn y ffiniau hynny byddai wedi bod yn well gennym beri i ardaloedd etholaethau gyfateb i ardaloedd y dosbarthau neu'r awdurdodau unedol newydd, lle bynnag yr oedd modd. Gwelir yr etholaethau presennol a'r ffordd y'u rhennir rhwng siroedd a dosbarthau yn Atodiad C. Mewn ymgais i osgoi gwastraffu gwaith, gwnaethom ofyn i'r Swyddfa Gymreig roi gwybod inni unwaith y gwyddid bod y Mesur yn debygol o gael Cymeradwyaeth Frenhinol. Yn syml ddigon, os ceid y Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994, byddem yn cynhyrchu argymhellion ar sail y ffiniau sirol newydd a gedwid, gan roi ystyriaeth o fewn y ffiniau hynny i ffiniau'r awdurdodau unedol newydd a gynigid. Os ceid y Gymeradwyaeth Frenhinol ar ôl 1 Mehefin 1994, ni allem wneud argymhellion ond ar sail ffiniau'r siroedd presennol.

12. Nodem fod Adran 3(3)(b) o Ddeddf 1992 yn ein galluogi, wrth gyhoeddi argymhellion arfaethedig, i roi ystyriaeth i ffiniau nad oeddent eto wedi dod i rym, ar yr amod bod y Mesur wedi cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin. Oherwydd terfyn amser diwygiedig 31 Rhagfyr 1994, ni allem fentro aros tan yr ail ddarlleniad gan ei bod yn bosibl, boed a fo am hynny, y byddai raid inni seilio'n hargymhellion ar ffiniau'r siroedd presennol os na châ'r mesur Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994. O ganlyniad, bu inni gyhoeddi, ar 4 Tachwedd 1993, ein bwriad i gynnal arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol Cymru ar sail y ffiniau presennol, a bu i chithau roi gwybod i Dŷ'r Cyffredin am hyn yn eich ateb i Gwestiwn Seneddol ar 19 Tachwedd 1993. Cyhoeddwyd rhybudd statudol o'n bwriad yn y London Gazette ar 9 Tachwedd 1993. Yr un pryd, cyhoeddwyd hysbysiad newyddion i'r perwyl hwn (gweler Atodiad D(a)).

13. Trwy ddechrau'r arolwg ar 9 Tachwedd, yr oedd modd yn syth inni ystyried dewisiadau posibl ar gyfer ffiniau etholaethol ar sail ffiniau sirol presennol, gan olygu, os na châi'r mesur Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994, y byddem mewn sefyllfa i fodloni terfyn amser cyfyng 31 Rhagfyr 1994. Sylweddolem fod perygl gwastraffu gwaith os rhoid y Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994, a bod rhaid ystyried gwahanol ffiniau, ond teimlem fod y perygl yn werth ei wynebu. Fel y digwyddodd, cyfiawnhawyd ein penderfyniad i gychwyn yr arolwg yn Nhachwedd 1993 gan na chafwyd y Gymeradwyaeth Frenhinol tan 5 Gorffennaf 1994. Fodd bynnag, golygai'r ansicrwydd ynglŷn â dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol inni benderfynu ym Mawrth 1994 beidio â threfnu ymchwiliadau lleol i'n hargymhellion dros dro y pryd hwnnw. Cyhoeddwyd hysbysiad newyddion i'r perwyl (gweler Atodiad D(b)). Credem y byddai wedi peri dryswch a gwastraff arian ac adnoddau eraill i sefydlu ymchwiliadau y gallai fod rhaid rhoi'r gorau iddynt pe câi'r mesur Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994. Nid oeddem mewn sefyllfa i wneud rhagdybiaethau ynglŷn â chynnydd cynigion ar gyfer newidiadau llywodraeth leol trwy'r Senedd. Fe'i gwnaed yn glir gennym y trefnid ymchwiliadau lleol ar ffiniau'r siroedd presennol, lle bynnag y byddai hynny'n briodol ac, os felly, cyn gynted ag y byddai'n ymarferol, os a phan ddeuid i wybod na châi'r mesur Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994. Cyhoeddwyd cynnal y saith ymchwiliad lleol yn eu pryd (gweler paragraff 35) ar 14 Ebrill yn fuan wedi inni ddod i'r casgliad, trwy gydymgyngori â'r Swyddfa Gymreig, na sicrhaid y Gymeradwyaeth Frenhinol erbyn 1 Mehefin 1994.

Y RHEOLAU

14. Gwelir y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi yn yr Ail Atodlen i Ddeddf 1986 (ac fe'u hatgynhyrchir yn Atodiad A i'r adroddiad hwn).

15. Yr oedd yn ofynnol inni seilio'n hargymhellion ar nifer yr etholwyr ar y gofrestr ar y dyddiad rhifo, 9 Tachwedd 1993. O dan Reol 8(c), dyma ddyddiad cyhoeddi, yn y London Gazette, ein rhybudd ysgrifenedig i chi ynglŷn â'n bwriad i ystyried llunio adroddiad. Cwota etholiadol yr arolwg hwn yw 58,525.

16. Mae Rheol 1 yn darparu na ddylai nifer etholaethau Prydain Fawr fod yn sylweddol fwy na llai na 613, a bu raid inni gadw hyn mewn cof wrth neilltuo seddi i Gymru. Mae'r Rheol hefyd yn dweud na ddylai nifer etholaethau Cymru fod yn llai na 35 ac mae'r Pwyllgor Materion Cartref wedi argymhell na ddylai cyfanswm etholaethau Cymru fod yn sylweddol fwy na 38. Nodem mai 36 o seddi, o leiaf, a geir ers etholiad cyffredinol 1950 ac mai 38 a geir ar hyn o bryd. Trafodir problem y cynnydd yn nifer y seddi a neilltuwyd mewn arolygon cyffredinol olynol ym mharagraffau 5 i 7 a 189 i 190.

17. Cyflwynwyd inni ddadleuon y dylem, lle bynnag y bo modd, fabwysiadu ffiniau'r awdurdodau unedol newydd, gan groesi ffiniau sirol, a rhoesom ystyriaeth fwy cyffredinol i gwestiwn croesi ffiniau sirol. Mae Rheol 4 yn darparu, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol, na ddylid cynnwys unrhyw sir na rhan o sir mewn etholaeth sy'n ymgorffori'r cyfan neu ran o unrhyw sir arall, ac ymgymerwyd â'n tasg o sir o sir. Fodd bynnag, oherwydd pryder ynglŷn â rhagolygon codi nifer y seddi o 38 i 40 trwy neilltuo sedd ychwanegol ar gyfer Clwyd a Dyfed ill dwy er mwyn cydymffurfio â phrif ofynion Rheolau 4 a 5, fe'n harweiniwyd, cyn cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, i ystyried dewisiadau eraill i osgoi'r cynnydd hwnnw. Rhoesom ystyriaeth ofalus i gynlluniau'n croesi'r ffin sirol rhwng Clwyd a Phowys, a rhwng Clwyd a Gwynedd fel a ganiateir gan Reol 5. Gwrthodwyd y rhain gennym trwy gymhwysu Rheolau 6 a 7, ynghyd â Rheol 4. O dan yr holl amgylchiadau, nid ymddangosai i ni fod croesi ffiniau sirol i'w ddimuno. Yng nghyd-destun newidiadau llywodraeth leol, fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol, unwaith y daw'r ffiniau a bennir yn The Local Government (Wales) Act 1994 (Deddf 1994) i rym, y gall fod yn briodol mewn rhannau o Gymru i gynnal arolygon interim i ystyried posibilrwydd peri i'r ffiniau etholaethol a argymhellir gennym yn awr gydredeg â ffiniau'r awdurdodau lleol newydd a'r ffiniau sirol sydd i'w "cadw", fel y'u cyflwynir o dan y Ddeddf honno. Ni ddisgwyliem i hyn fod yn briodol cyn yr etholiad cyffredinol nesaf.

18. Er mwyn bodloni gofynion Rheol 4, ar y cyd â dymunoldeb osgoi gormod o anghysondeb rhwng niferoedd yn unol â Rheol 5, yr ydym wedi pennu hawl ddamcaniaethol o ran seddi ar gyfer pob sir. Ceir hon trwy rannu nifer etholwyr y sir â'r cwota etholiadol. Bu inni wedyn benderfynu faint o seddi i'w neilltuo i'r sir, gan rannu nifer etholwyr y sir â'r nifer hwnnw. Y canlyniad yw nifer yr etholwyr, ar gyfartaledd, ar gyfer pob sedd yn y sir. Y cyfartaledd sirol hwn yw nifer yr etholwyr y dylai pob sedd yn y sir eu cynnwys er mwyn sicrhau etholaethau cyfagos a chanddynt niferoedd cyfartal o etholwyr heb groesi'r ffin sirol. Dangosir cyfartaledd yr wyth sir yn Atodiad E(c).

19. Gwelir yn Atodiad F yr hawl ddamcaniaethol i seddi o fewn pob sir, ynghyd â nifer y seddi a neilltuwyd. Fel y gwelir o dan adrannau'r adroddiad ar bob sir, ni fu modd inni bob amser argymhell seddi a chanddynt niferoedd o etholwyr mor agos i'r cwota etholiadol ag y byddem wedi dymuno, er gwaethaf ystyried pob posibilrwydd. Yr oedd hyn i'w briodoli i sawl ffactor, nid lleiaf y ffaith mai anaml y bydd yr hawl ddamcaniaethol yn nifer crwn a bod rhaid ei droi i'r nifer nesaf i fyny neu i lawr, gan greu gwahaniaethau lled sylweddol mewn rhai enghreifftiau rhwng cyfartaledd y siroedd unigol.
20. Yr oeddem hefyd am gadw affineddau lleol yn enwedig yng Ngogledd Cymru ac yng nghymoedd y De lle y mae'r llinellau cysylltu'n bwysig ac wedi eu diffinio'n ddiamwys. Mae Rheol 7 wedi caniatáu inni roi ystyriaeth ofalus i faterion o'r fath, ac i'r cwestiwn a fyddai'n amhriodol rhannu ardal sydd ag ymdeimlad o undod am resymau rhifyddol yn unig. Lle y teimlwn fod hynny'n iawn a lle y mae'r farn leol wedi dwyn perswâd, yr ydym wedi manteisio ar amodau Rheol 7 i drechu Rheol 5.
21. Bu raid inni geisio cymodi cysondeb etholiadol, maint a hygyrchedd etholaeth, ac unrhyw gysylltiadau lleol. Fel ein rhagflaenwyr, teimlem ninnau ei bod yn iawn dyfynnu Rheolau 6 a 7 mewn rhai enghreifftiau lle'r oedd nifer yr etholwyr ymhell islaw'r cwota etholiadol er mwyn cyfyngu'r diriogaeth a wasanaethodd gan y seddi hynny a diogelu cysylltiadau lleol.
22. Cyn penderfynu'n hargymhellion dros dro, edrychwyd gennym ar sawl dewis ar gyfer pob sir, o gofio'r Rheolau uchod. Bu inni barhau'r arfer o beidio â gwahodd awgrymiadau gan gyrff a sefydliadau allanol cyn llunio'n hargymhellion dros dro. Teimlem mai gwell oedd agor yr argymhellion hynny o sefyllfa ddiudedd ac annibynnol. Trwy hyn, gwnaed yn siŵr na ddylanwedid arnom, neu na welid dylanwadu arnom, gan unrhyw ystyriaethau gwleidyddol neu ystyriaethau allanol eraill.
23. O dan Adran 3(4) o Ddeddf 1986, mae arnom rwymedigaeth i argymhell enwau a theitlau ar gyfer etholaethau. Ni chynnwys Deddf 1986 unrhyw gyfarwyddyd ynglŷn â'r pwyntiau hyn ond credwn, lle na chynigiwyd gennym ond ychydig o newid neu ddim newid o gwbl i gyfansoddiad sedd, na ddylai fod angen newid ei henw na'i theitl fel arfer. Lle y cynigiwyd etholaeth newydd gennym, teimlwn y dylai'r enw adlewyrchu, fel rheol, enw'r ardal a gynhwysir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, rhoesom ystyriaeth ofalus iawn i enwau ar wahân i'r rhai a argymhellwyd gennym ni a byddem wedi bod yn barod i ddiwygio'n hargymhellion pe gwrthwynebid rhai ohonynt yn gryf, gan gyflwyno enwau addas eraill yn eu lle. O dan yr arolwg hwn, ni fu angen newid y mwyafrif o'r enwau a dim ond ym Mhowys y bu enwau yn bwnc arwyddocaol.
24. Nid yw Deddf 1986 yn darparu i etholaethau fod â dau enw ac felly mae'r enw a ddewiswyd naill ai yn un Saesneg neu'n un Cymraeg.
25. Fel egwyddor gyffredinol, lle y mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, teimlwn y dylid eu pennu'n etholaethau sirol. Fel arall, dylid eu pennu'n etholaethau bwrdeistref. Mae'r teitl fel arfer yn penderfynu pwy sydd i weithredu'n swyddog canlyniadau mewn etholiadau seneddol, gan effeithio hefyd ar lefel y treuliau a ganiateir i ymgeisydd mewn etholiadau. Mewn etholiadau sirol, mae'r lwfans ychydig yn uwch nag mewn etholaethau bwrdeistref. Dim ond yn yr ardaloedd trefol, dwysaf eu poblogaeth y pennwyd etholaethau bwrdeistref gennym. Atodir y teitl wrth enw'r etholaeth, gan ei dalfyrru fel arfer: BC am 'Borough Constituency' ac CC am 'County Constituency'.
26. Fel y soniwyd mewn manau eraill, ni roesom ystyriaeth i gynigion Deddf 1994 ynglŷn â ffiniau sirol am na chafwyd Cymeradwyaeth Frenhinol tan ar ôl 1 Mehefin 1994, a chan hynny yr oedd yn ofynnol inni barchu'r ffiniau sirol presennol. O fewn siroedd, tra'n rhoi sylw mewn termau cyffredinol i ragolwg newidiadau yn y dyfodol, yr ydym wedi dilyn ffiniau'r dosbarthau sy'n bodoli ar hyn o bryd fel patrwm gweinyddiad lleol cyfredol a rhywbeth sy'n adlewyrchu cysylltiadau lleol. Yn fwyaf arbennig, yr ydym wedi parhau polisi defnyddio wardiau dosbarth fel ein hunedau sylfaenol ar gyfer yr etholaethau a argymhellwn; bydd y mwyafrif o bleidiau gwleidyddol yn defnyddio'r wardiau hyn fel sail i'w gweithgarwch lleol ac maent fel arfer yn adlewyrchiad diamwys o ardaloedd sydd ag ymdeimlad o undod.
27. Lle y gwnaed Gorchmynion lleol i ddiwygio'r wardiau o fewn dosbarth arbennig, yr ydym wedi cymryd y ward newydd i ystyriaeth os gwnaed y Gorchmynyn cyn 1 Mehefin 1994. Dewiswyd y dyddiad hwn gennym fel terfyn amser am y gallai dyddiad diweddarach fod wedi golygu newid seddi ar yr unfed awr ar ddeg heb ganiatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori. Felly, nid ystyriwyd gennym Orchmynion lleol a wnaed ar 1 Mehefin neu wedi hynny. Dim ond ar ddyrnaid o etholwyr yr effeithiwyd gan hyn ac ni chawsom unrhyw sylwadau croes ynglŷn â'r polisi dan sylw.

28. Bu i'n rhagflaenwyr baratoi a chyhoeddi llyfryn yn Gymraeg a Saesneg, gan ddisgrifio, mewn termau syml, y gwahanol gamre cyffredinol yn ystod yr arolwg a'r adegau pan ganiateid i bobl leisio sylwadau ar ein cynigion os dymument. Oddi ar ei gyhoeddi'n wreiddiol, yr oedd wedi mynd braidd yn henffasiwn ac felly gwnaethom ei ddiweddarau a'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 1993 o dan y teitl "Yr Arolwg o Etholaethau Seneddol—1993". Anfonwyd copïau i bencadlysoedd y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru, i lyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, at bob Aelod Seneddol o Gymru ac i bob cyngor sir a dosbarth, ynghyd â phobl academiaidd a chyrrff neu unigolion eraill â diddordeb oedd wedi eu ceisio. Trefnwyd i gopïau fod ar gael hefyd ymhob un o'r ymchwiliadau lleol.

29. Cynhwysai'r llyfryn ein datganiad ar ddefnyddio'r ieithoedd Cymraeg a Saesneg. Atgynhyrchir y datganiad hwn yn Atodiad G.

30. Dilynwyd arfer ein rhagflaenwyr gennym ni trwy ymgynghori â chynrychiolwyr pob plaid wleidyddol Gymreig oedd yn bresennol yn Nhŷ'r Cyffredin. Gobeithiem y rhôl hyn iddynt ddealltwriaeth o'r Rheolau y gweithredem o danynt, gan sicrhau y byddent yn ymwybodol o'n hamserlen gaeth. Yr oedd yn arbennig o bwysig iddynt fod yn ymwybodol, yn hydref 1993, ein bod mewn sefyllfa anodd o ran gorfod parchu terfyn amser cyfyng, ac eto heb wybod pa ffiniau awdurdod lleol i seilio'n hargymhellion arnynt oherwydd ansicrwydd ynglŷn â chynnydd y Mesur. Dymunwn gofnodi inni gael y ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ddefnyddiol iawn. Dylem bwysleisio, fodd bynnag, fod y drafodaeth yn ymwneud â'r drefn oedd i'w dilyn a'r amseru posibl, ac nid â chynigion penodol yng nghyswllt ffiniau.

Y DREFN

31. Rhoes y Cofrestrydd Cyffredinol inni niferoedd etholwyr pob dosbarth, ward ddosbarth ac etholaeth bresennol yng Nghymru. Bu staff cofrestru etholiadol mewn cynhorau dosbarth yn gymwynasgar iawn trwy ddarparu niferoedd etholwyr y gwahanol wardiau ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993). Bu raid iddynt addasu'r rhain o ffigurau cofrestru Chwefror 1993. Paratôdd Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordans fapiau'n dangos ffiniau'r etholaethau a'r awdurdodau lleol presennol, yn ogystal â ffiniau etholaethau yn sgîl ein hargymhellion dros dro a diwygiedig. Dymunwn gydnabod y cymorth a gawsom o'r cyfeiriadau hyn.

32. Hysbysebwyd ein hargymhellion dros dro mewn papurau newydd lleol yn cylchredeg o fewn pob etholaeth yng Nghymru, ynghyd â rhestr o'r manau ymhob etholaeth lle y cedwid manylion ein cynigion yn barod i'w harchwilio. Gwnaethom yn siŵr fod y ddarpariaeth yn eang er mwyn cyrraedd cymaint o etholwyr â phosibl. Seilid y papurau a ddewiswyd gennym ar gyngor asiantiaid y Wasg ac ar yr hyn a welsai'n rhagflaenwyr yn foddhaol. Cadwyd ein hysbysiadau mewn swyddfeydd cyngor a lyfrgelloedd ac yn y manau hynny a awgrymwyd gan yr awdurdodau lleol unigol. Cyhoeddwyd ein hysbysiadau yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd. Cynhyrchodd yr Arolwg Ordans fapiau'n dangos ffiniau'r wardiau i ddarlunio'n cynigion ac arddangoswyd y rhain gan yr awdurdodau lleol, ar y cyd â'r hysbysiadau statudol, er mwyn helpu etholwyr i ystyried ein cynigion.

33. Anfonwyd copïau o bob hysbysiad i'r awdurdodau lleol, pencadlysoedd y prif bleidiau gwleidyddol, Llyfrgelloedd Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, ac at Aelodau Seneddol unigol o Gymru. Trwy'r Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog, trefnwyd hefyd i bapurau cenedlaethol a lleol eraill a chyrrff newyddion radio a theledu gael gwybod am ein hargymhellion.

34. Yr oedd yn rhaid i'r hysbysiadau a arddangoswyd mewn manau cyhoeddus i hysbysebu'n hargymhellion ddweud y rhoid ystyriaeth i sylwadau a gyflwynid inni o fewn y cyfnod statudol o un mis ar ôl y dyddiad cyhoeddi. Fel y digwyddodd, bu modd inni ystyried hefyd yr holl sylwadau hynny a gyflwynwyd y tu allan i'r cyfnod hwn, ar yr amod iddynt ddod i law heb fod yn hwyrach na dyddiadau'r ymchwiliadau lleol.

YMCHWILIADAU LLEOL

35. O dan amodau Adran 6(2) o Ddeddf 1986, mae'n ofynnol inni gynnal ymchwiliad lleol pan fydd awdurdod lleol sydd â diddordeb, hynny yw cyngor dosbarth neu sir, neu gorff o 100 neu ragor o etholwyr, yn gwrthwynebu'n cynigion fel y'u cyhoeddwyd, os bydd y gwrthwynebiad yn ymwneud ag etholaeth lle'r argymhellwyd rhyw newid gennym. O ganlyniad i sylwadau o'r fath, bu gofyn inni gynnal ymchwiliadau lleol yn Nyfed, Clwyd a Gwent. Yn siroedd Gwynedd, Powys, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg, cawsom nifer o wrthwynebiadau i'n cynigion "dim newid" a phenderfynwyd ymarfer â'n rhyddid o dan Adran 6(1) o Ddeddf 1986 i gynnal ymchwiliadau yn y siroedd hynny hefyd. Ym Morgannwg Ganol, ni ddaeth unrhyw sylwadau i law, ar wahân i un awgrym ar sail yr awdurdodau unedol newydd arfaethedig, ac ni theimlid bod angen ymchwiliad.

36. Fe'i gwneid yn glir yn ein hysbysiadau fod yr ymchwiliadau'n agored i unrhyw berson neu gynrychiolydd corff oedd am fod yn bresennol i leisio safbwynt ynglŷn â chyfansoddiad neu enwau'r etholaethau a argymhellwyd gennym. Nid oedd cynrychiolaeth yn yr ymchwiliadau wedi ei chyfyngu i'r rheiny oedd wedi gwneud sylwadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, dymunwn bwysleisio nad oedd methiant i ddod i ymchwiliad yn dirymu unrhyw ddadl a gyflwynwyd yn ysgrifenedig cyn yr ymchwiliad. Yr ydym wedi archwilio'r holl sylwadau, p'un ai ar ffurf ysgrifenedig neu wedi eu cyflwyno ar lafar mewn ymchwiliad.

37. Yn unol â'n cais, bu ichi benodi panel o Gomisiynwyr Cynorthwyol y gallem ddedol aelodau o'u plith i gynnal ymchwiliadau lleol. Cynhaliwyd tri o'r ymchwiliadau gan Gomisiynwyr Cynorthwyol dwyieithog. Ymhob ymchwiliad, penodwyd cyfieithwyr-ar-y-pryd i gynorthwyo fel y gallai'r rhai oedd am gyflwyno'u tystiolaeth yn Gymraeg wneud hynny. Fel mater o ffaith, siaradwyd Cymraeg mewn pump o'r ymchwiliadau, yn enwedig yng Nghlwyd, Dyfed a Gwynedd, ond hefyd i raddau llai yn Ne Morgannwg a Gorllewin Morgannwg.

38. Defnyddiodd y cyfieithwyr offer cyfieithu-ar-y-pryd gyda ffonau clust i'r rhai oedd yn bresennol, ac ar wahân i un neu ddwy o broblemau technegol yng Nghlwyd a Dyfed lle y caniatodd y Comisiynydd Cynorthwyol amser i ddiffygion gael eu hunioni, ni roddwyd gwybod inni am unrhyw anawsterau mawr gyda'r cyfieithu ei hun. Oherwydd canran uchel y Cymry Cymraeg yng Ngwynedd, trefnwyd i ddau gyfieithydd-ar-y-pryd fod yn bresennol yn yr ymchwiliad hwnnw. Dymunwn gofnodi'n diolchgarwch i'r cyfieithwyr a gynorthwyodd yn effeithiol yn yr ymchwiliadau lleol.

39. Cafodd hysbysiadau'n rhoi gwybod am yr ymchwiliadau lleol eu cyhoeddi ar 14 Ebrill 1994 yn yr un modd â hysbysiadau ynglŷn â'n hargymhellion dros dro. Yng Nghlwyd y bu'r ymchwiliad cyntaf, gan ddechrau ar 31 Mai, ac yng Ngwynedd y cynhaliwyd yr un olaf, gan ddechrau ar 15 Mehefin. Cafodd copïau o'r holl sylwadau a gyflwynwyd inni ynglŷn â'r argymhellion hyn, ynghyd â chrynodeb, eu cadw i'w harchwilio gan y cyhoedd yn y cyfeiriadau a restrwyd yn y papurau newydd lleol, gan gylchredeg y crynodeb ymhlith pobl oedd â diddordeb. Dim ond cyfran fach o'r rhai'n gwneud sylwadau a gyflwynodd wrth-gynigion. Lle y cyflwynwyd gwrth-gynigion, trefnwyd i'r rheiny gael eu cadw i'r cyhoedd eu harchwilio, gan dynnu sylw arbennig atynt yn y crynodeb.

40. Gan ddilyn yr arfer traddodiadol, penderfynsom beidio â chael ein cynrychioli yn yr ymchwiliadau. Fodd bynnag, bu o leiaf un aelod o staff ein hadran ysgrifenyddol bob amser yn bresennol fel sylwedydd ac i helpu'r ymchwiliad i fynd rhagddo'n esmwyth. Cyn pob ymchwiliad, cyhoeddwyd gennym ddatganiad yn gosod y meini prawf yr oedd yn rhaid inni eu cymhwysu, ynghyd â'r ffactorau y rhoesem ystyriaeth iddynt. Cyflwynwyd y datganiadau hyn ar ddechrau pob ymchwiliad gan y Comisiynydd Cynorthwyol.

41. Penodwyd adroddwyr gair-am-air i ysgrifennu ac atgynhyrchu trawsgriptiau o drafodion pob ymchwiliad. Trefnwyd i'r rhain fod ar gael i'r Comisiynwyr Cynorthwyol perthnasol i'w helpu i baratoi eu hadroddiadau. Unwaith inni ystyried adroddiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol a dod i'n casgliadau, trefnasom i'r trawsgriptiau fod ar gael i rai â diddordeb yn unol â'u cais.

42. Gwnaed argraff arnom gan ansawdd adroddiadau llunwyr y trawsgriptiau a mynegwn ein diolchgarwch iddynt am eu heffeithiolrwydd wrth gynhyrchu'r cofnodion yn gyflym.

43. Gofynnwyd i'r Comisiynwyr Cynorthwyol anfon eu hadroddiadau atom erbyn diwedd Gorffennaf 1994, ac yr ydym yn ddiolchgar am eu prydlondeb wrth gynhyrchu'r adroddiadau hynny. O'u derbyn, bu inni ystyried argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol yng ngoleuni'r sylwadau, yr adroddiad gair-am-air ar yr ymchwiliad, a'r dystiolaeth. Lle y penderfynsom ddiwygio'n hargymhellion mewn unrhyw ffordd, cyhoeddwyd ein cynigion newydd, gan wahodd sylwadau a dilyn yr un drefn ag o'r blaen. Anfonwyd copïau o adroddiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol i gynghorau sir, pencadlysoedd y pleidiau gwleidyddol ac at yr unigolion oedd wedi annerch yr ymchwiliadau. Cadwyd copïau hefyd, gyda'r argymhellion diwygiedig, ymhob un o'r etholaethau presennol. Gwelir yn Atodiad H restr o'r Comisiynwyr Cynorthwyol a gynhaliodd ymchwiliadau lleol, gan ddangos dyddiadau'r ymchwiliadau hynny.

44. I hybu esmwythdra'r ymchwiliadau, cynhyrchwyd gennym daflen yn egluro trefn ymchwiliadau. Atgynhyrchwyd y daflen hon yn Atodiad I.

DOSBARTHU SEDDI

45. Fel yr eglurwyd uchod, yn ystod camre cynnar yr arolwg bu inni bennu hawl ddamcaniaethol pob un o wyth sir Cymru o ran seddi. Gwnaed hyn trwy rannu cyfanrif etholwyr pob sir ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993) â chwota etholiadol 1993 (58,525)—gweler Atodiad F.

46. Unwaith i hawl ddamcaniaethol pob sir gael ei phennu, troesom y ffigur i fyny neu i lawr i'r nifer crwn agosaf. Soniwn o dan isbenawdau ar wahân ar gyfer pob sir sut y daeth y siroedd ymlaen o ran hawl i seddi, ond fel y gwelir, bu i Wynedd greu problem arbennig inni eto oherwydd daearyddiaeth y sir honno.

YR ARGYMHELLION

47. Cyhoeddwyd ein hargymhellion dros dro ar gyfer Cymru gyfan yn Rhagfyr 1993. Yn y cynigion hynny, bu inni argymhell dim newid i seddi presennol Gwynedd, Morgannwg Ganol, Powys, De Morgannwg a Gorllewin Morgannwg. Argymhellwyd gennym sedd ychwanegol i Glwyd a Dyfed fel ei gilydd, ac y dylai un ward gael ei throsglwyddo rhwng etholaethau yng Ngwent. Yn Ne Morgannwg (ar ôl yr ymchwiliad), cyhoeddwyd argymhellion diwygiedig gennym i roi cyfrif i'r mân addasiadau i ffiniau wardiau a wireddwyd gan The Cardiff and Vale of Glamorgan (Areas) Order 1994, a olygai o ran effaith drosglwyddo 38 o etholwyr o sedd Vale of Glamorgan i sedd Cardiff West, a chan The Vale of Glamorgan (Barry and Dinas Powys Communities) Order 1994, na châl unrhyw effaith ar ffiniau etholaeth am fod y Gorchymyn yn sôn am ddwy ward ddosbarth o fewn etholaeth Vale of Glamorgan. Nodir isod yr argymhellion terfynol yn sgîl ystyried adroddiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol ar ymchwiliadau lleol, ynghyd â'r holl sylwadau. Cynhwysir mapiau ar gyfer pob sir, gan ddangos yr etholaethau presennol a'r rhai a argymhellir ar fap sylfaen, a'r ffiniau dosbarth a ward gyda'r etholaethau a argymhellir wedi eu hailadrodd ar fap trosgaen. Mae'r wardiau dosbarth wedi eu rhifo a'u rhestru yn Atodiad J ochr yn ochr â niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo.

CLWYD

48. Nifer etholwyr y sir ar y dyddiad rhifo oedd 324,649 sydd, o'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), yn rhoi i'r sir hawl ddamcaniaethol i 5.55 o seddi. Penderfynsom argymhell dros dro y dylid neilltuo chwe sedd i Glwyd, un yn fwy nag ar hyn o bryd. O neilltuo chwe sedd, 54,108 fyddai nifer yr etholwyr ar gyfartaledd yn etholaethau'r sir (y cyfartaledd sirol)—ffigur sy'n rhesymol o agos i'r cwota etholiadol. Pe parheid i neilltuo pum sedd i'r sir, byddai'r cyfartaledd sirol, sef 64,930, yn rhy uchel.

49. Mae nifer yr etholwyr yng Nghlwyd wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolwg diwethaf, ac ar hyn o bryd mae'r niferoedd ymhob un o'r pum etholaeth uwchlaw'r cwota etholiadol. Yr oeddem yn ymwybodol y byddai cyflwyno sedd ychwanegol a gostwng y niferoedd uchel hyn o etholwyr yn yr etholaethau yn gwneud rhai newidiadau o bwys yn anochel yng Nghlwyd. Yr oeddem hefyd yn ymwybodol o Reol 1 sy'n darparu ar gyfer nifer etholaethau Prydain Fawr. Ystyriwyd gennym, felly, a fyddai'n briodol osgoi newid helaeth trwy barhau i neilltuo pum sedd, ond daethom i'r casgliad bod Rheol 5, o ran effaith, yn mynnu ateb chwe-sedd ac na ellid yn rhesymol yn yr achos dan sylw gymhwyso'r rhyddid a ganiateid inni gan Reol 7 er mwyn trechu'r gofyn hwnnw. Nodem hefyd fod cryn anghysondeb rhwng y seddi presennol.

50. Cynhwysai'n hargymhellion dros dro ddwy sedd, a phob un yn ymgorffori un awdurdod dosbarth yn ei grynswth. O dan yr argymhellion dros dro, lleieid yr anghysondeb rhwng niferoedd uchaf ac isaf yr etholwyr yn y sir i 5,465 o ffigur presennol 7,169.

51. Enwau, teitlau a niferoedd etholwyr y chwe etholaeth a argymhellwyd dros dro gennym oedd:—

Alun and Deeside CC	57,815
Clwyd South CC	52,350
Clwyd West CC	53,827
Delyn CC	54,713
Vale of Clwyd CC	53,013
Wrexham CC	52,931

52. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom 135 o sylwadau, a 50 o'r rheiny'n cymeradwyo a 40 yn rhannol gymeradwyo'n hargymhellion. Oherwydd y sylwadau hyn, bu raid inni gynnal ymchwiliad lleol. Agorodd hwn yn yr Wyddgrug ar 31 Mai 1994, gan bara ddeuddydd a'r rhan fwyaf o drydydd diwrnod.

53. Y prif faterion a drafodwyd yn yr ymchwiliad oedd:—

- a ddylai dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy a bwrdeistref Delyn gael eu rhannu ar sail ffiniau presennol y dosbarth a'r fwrdeistref neu ar sail ffin o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain;
- a ddylai ward Rhiwabon ym mwrdeistref Wrexham Maelor fod yn rhan o sedd arfaethedig Wrexham neu Clwyd South;
- a ddylai wardiau Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, a Gorllewin Gwersyllt fod yn rhan o sedd arfaethedig Clwyd South neu Wrexham;

- (d) a ddylai wardiau Bronington, Marchwiall ac Owrtyn, ynghyd â Rhiwabon, fod yn rhan o sedd arfaethedig Wrexham neu Clwyd South;
- (e) a ddylai'r 23 o wardiau ym mwrdeistref Wrexham Maelor ffurfio un etholaeth;
- (f) a ddylai ward Bae Cinnel ym mwrdeistref Colwyn fod yn rhan o sedd arfaethedig Clwyd West neu Vale of Clwyd;
- (g) a ddylai wardiau cyfun Bae Cinnel a Thywyn fod yn rhan o sedd arfaethedig Clwyd West neu Vale of Clwyd; ac
- (h) a ddylai bwrdeistrefi Colwyn a Rhuddlan a dosbarth Glyndŵr gael eu rhannu ar sail ffin o'r dwyrain i'r gorllewin, a ble yn union y dylai'r ffin honno fod.

54. Yn ei adroddiad, dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol na leisiwyd unrhyw wrthwynebiad yn ymchwiliad yn erbyn y cynnig i godi nifer yr etholaethau. Ni chafwyd ychwaith unrhyw wrthwynebiad i deitlau'r etholaethau fel y'u cynigiwyd gennym. Cafwyd un ohebiaeth ynglŷn ag enwau seddi. Ystyriwyd hon gennym ni a chan y Comisiynydd Cynorthwyol, ond gwnaethom gytuno â'r Comisiynydd Cynorthwyol na cheid tystiolaeth i gyfiawnhau casglu y byddai enwau agosach i enwau'r darpar-awdurdodau unedol yn ennyn mwy o gefnogaeth na'n hargymhellion ni.

55. Gyda golwg ar gyfansoddiad seddi, argymhellwyd dros dro gennym y dylai ward Llai ym mwrdeistref Wrexham Maelor gael ei throsglwyddo o sedd Alyn and Deeside er mwyn gadael y sedd honno'n cynnwys y cyfan o ddosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy. Yr oedd nifer yr etholwyr a geid o ganlyniad, sef 57,815, yn agos i'r cwota etholiadol. Argymhellwyd dros dro gennym hefyd y dylai ward Allt Melyd a phob un o bedair ward Prestatyn ym mwrdeistref Rhuddlan gael eu trosglwyddo o sedd Delyn er mwyn gadael y sedd honno'n cynnwys y cyfan o fwrdeistref Delyn. Teimlem fod nifer yr etholwyr, sef 54,713, yn dderbyniol.

56. Cafwyd cryn gefnogaeth i'r argymhellion hyn, yn ogystal â rhywfaint o wrthwynebiad. Cyflwynwyd gwrth-gynnig i'r perwyl y dylid ffurfio dwy etholaeth trwy rannu dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy a bwrdeistref Delyn ar hyd llinellau gwahanol. Gellid wedyn roi'r enwau Deeside CC ac Alyn Valley CC ar yr etholaethau canlyniadol.

57. Cynhwysai'r gwrth-gynnig ddau ddewis—y cyntaf ohonynt yn ymdrin ag etholaethau Alyn and Deeside, a Delyn. Ceisiai uniaethu ardaloedd naturiol oedd ag ymdeimlad o undod â'i gilydd, gan y dadleuid bod y ffiniau dosbarth a bwrdeistref presennol yn artiffisial ac na ddylid mo'u dilyn. Gwnaethid asesiad yn pennu dwy ardal ar wahân y ceid ymdeimlad o undod o'u mewn. Y rhain oedd ardal o gymeriad diwydiannol i'r gogledd o ffordd gyflym yr A55, gan ymestyn o'r Parlwr Du hyd Barc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy a pharthau diwydiannol Broughton a Saltney; ac ardal o dir amaethyddol i'r de o'r A55 rhwng Helygain a Mynyddoedd Clwyd a Bwcle a Phenarlâg. Byddai dwy etholaeth seiliedig ar y rhanbarthau arwahanol hyn, fe ddadleuid, yn caniatáu i Aelod pob un weithio o fewn ardaloedd oedd ag ymdeimlad arbenigol o undod.

58. Gwrthwynebwyd y dewis hwn yn gryf yn yr ymchwiliad am iddi gael ei hateb, o gofio datblygiad ystadau diwydiannol y tu hwnt i'r rhimyn arfordirol a ffordd gyflym yr A55, ei bod yn amhosibl bellach rannu'r ardal yn unedau diwydiannol ac amaethyddol ar wahân. Haerwyd hefyd bod anwybyddu'r ffiniau dosbarth a bwrdeistref presennol yn gyfystyr â methu rhoi sylw i enghreifftiau eraill o ymdeimlad o undod o fewn y ffiniau hynny.

59. Cydnabyddai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod yr ardal ddiwydiannol yn gorwedd yn bennaf i'r gogledd o ffordd gyflym yr A55 ond yr oedd yn well ganddo'r dystiolaeth hanesyddol a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad, gan brofi cysylltiadau agos rhwng lleoedd fel y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug; a rhwng Bwcle, Connah's Quay a Phenarlâg. Credai fod creu cynghorau dosbarth a bwrdeistref Alun a Glannau Dyfrdwy, a Delyn wedi cryfhau'r cysylltiadau hynny.

60. Er bod yr argymhellion dros dro a'r gwrth-gynnig uchod yn rhoi ffigurau derbyniol fel ei gilydd, cafodd y Comisiynydd Cynorthwyol fod yr etholaethau presennol yn gweithredu'n effeithiol. Ar sail y dystiolaeth ger ei fron, teimlai nad oedd yr un o'r gwrth-ddadleuon yn fwy derbyniol na'n hargymhellion dros-dro ni a gwrthododd y gwrth-gynnig hwn o blaid ein hargymhellion dros dro ar gyfer etholaethau Alyn and Deeside, a Delyn.

61. Yr oedd ail wrth-gynnig o'r un ffynhonnell wedi ei gefnogi'n dda, gan ymwneud â'n hargymhellion dros dro ar gyfer cyfansoddiad seddi Wrexham a Clwyd South. Gwrth-gynigiwyd y dylai tref Wrexham ffurfio etholaeth drefol, ac y dylai'r ardal oddi cwmpas, gan gynnwys tair ward o ddosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy, ffurfio etholaeth wledig. Canlyniad hyn fyddai etholaeth Wrexham ac iddi 56,447 o etholwyr ac etholaeth Clwyd South ac iddi 53,457 o etholwyr. Gostyngid sedd Alyn and Deeside i 52,195 o etholwyr, 10.8% islaw'r cwota etholiadol.

62. Hefyd, dadleuai'r gwrth-gynigwyr fod angen pennu ardaloedd oedd ag ymdeimlad naturiol o undod â'i gilydd, ac mai'r rhain oedd cymuned ddiwydiannol a busnes Wrecsam drefol, a chymuned amaethyddol y cyffiniau. Dadleuid y byddai dwy etholaeth o'r fath yn caniatáu i AS pob un weithio o fewn maes diddordeb arbenigol. Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth i'r farn hon, ond fe'i gwrthwynebwyd hefyd, ar y sail ei bod yn methu parchu ffiniau presennol dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy, ac yn methu'r un pryd uniaethu ardaloedd perthnasol a rannai ymdeimlad o undod. Er enghraifft, rhesymid mai hollol amhriodol oedd cynnwys ward Holt, sy'n ymgorffori Ystad Ddiwydiannol Wrecsam, mewn etholaeth wledig.

63. Yr oedd yn well gan y Comisiynydd Cynorthwyol y farn a leisiwyd mai'r hyn yr oedd ei angen yn yr ardal oedd etholaeth gytbwys yn cynnwys rhai wardiau trefol a rhai gwledig. Dyma farn a rannem ninnau.

64. Yn ein hargymhellion dros dro, yr oeddem wedi cynnig y dylai tair ward Gwersyllt ym mwrdeistref Wrecsam Maelor ffurfio rhan o sedd Clwyd South. Cafwyd rhywfaint o gefnogaeth i'n hargymhellion dros dro, ond gwyntyllwyd yn yr ymchwiliad wrth-gynnig wedi ei gefnogi'n dda i'r perwyl y dylai'r wardiau hynny newid lle â wardiau eraill o dan yr un dosbarth, sef Bronington, Marchwiall, Owrtyn a Rhiwabon, a roesem ni yn sedd Wrexham.

65. Gyda golwg ar ward Rhiwabon, dadleuid y byddai ei symud o Clwyd South yn torri cysylltiadau â chymunedau cyfagos ac yn peri chwalfa. Gorwedd Rhiwabon ar hyd dwy ochr ffordd ddeuol (A483), gyda mwyafrif y boblogaeth yn byw i'r gorllewin o'r ffordd newydd. Tua'r dwyrain, mae ward Rhiwabon yn wledig, a thua'r de a'r gorllewin fe gyfuno â wardiau Cefn, Plasmadog, Pen-y-cae, Pant, Johnston ac Esclusham, y cynigiwyd gennym y dylent fod yn sedd Clwyd South. Dadleuid ymhellach fod Rhiwabon yn un o rwydwaith o gyn-bentrefi mwyngloddio sy'n ymestyn ar hyd yr hen A483 (bellach y B5097). Mae'r ffiniau ffisegol rhwng y pentrefi hyn yn aneglur. Mae'r cysylltiadau cymunedol wedi eu hadlewyrchu hefyd yn y modd y trefnir gwasanaethau llywodraeth leol, megis tai, a chynrychiolaeth llywodraeth leol. Dadleuid yn gryf, felly, y dylai Rhiwabon fod yn rhan o etholaeth Clwyd South.

66. Cafwyd cefnogaeth gref hefyd o blaid y cynnig y dylai wardiau Bronington, Marchwiall ac Owrtyn ym Maelor gael eu cynnwys yn sedd Clwyd South. Pe'u cyfnewidid â thair ward Gwersyllt, dadleuid mai'r canlyniad fyddai dwy sedd gydag ymdeimlad o undod o fewn pob un—Clwyd South yn fwy gwledig ac amaethyddol, a Wrexham yn fwy diwydiannol a masnachol.

67. Yn groes i hyn, nodid bod hanes, iaith a diwylliant wardiau Maelor yn wahanol iawn i ardaloedd sedd arfaethedig Clwyd South, ac yn wir i'r wardiau dan sylw ffurfio rhan o gyn-etholaeth Wrexham ym 1974. Yr oeddent yn eu hanfod yn Saesneg ac nid Cymraeg o ran iaith a diwylliant, lle'r oedd gan Wersyllt i ryw raddau ddiwylliant cryfach Gymraeg.

68. Ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol fater Gwersyllt. Gorwedd Gwersyllt ar dir isel i'r gorllewin o Wrecsam ac mae wedi ei wahanu o'r dref gan wregys gwyrdd a'r A483 newydd. Nid yw'r pellter yn fawr, ac ar hyd ffordd Llai-Wrecsam ceir datblygiad di-dor bron fel na ellir gwahaniaethu Gwersyllt oddi wrth Wrecsam ei hun. Mae wedi ei gysylltu â'r dref gan reilffordd a ffyrdd a bydd yn dibynnu ar Wrecsam ar gyfer cyfleusterau siopa a gwasanaethau cyhoeddus.

69. Wedi ystyried cysylltiadau amlwg Gwersyllt â Wrecsam a'r dadleuon a gefnogid yn dda ynglŷn â wardiau Rhiwabon, Bronington, Marchwiall ac Owrtyn ym Maelor, ymwelodd y Comisiynydd Cynorthwyol â'r ddwy ardal a phenderfynodd argymhell ein bod yn diwygio'n hargymhellion dros dro er mwyn cynnwys tair ward Gwersyllt yn Wrexham yn gyfnewid am y pedair ward arall ym Maelor y dylid eu trosglwyddo i Clwyd South. Canlyniad cyfnewid etholaethau yn y modd hwn fyddai seddi ac iddynt niferoedd cytbwys o etholwyr. Cytunem â chasgliadau'r Comisiynydd Cynorthwyol yn hyn o beth.

70. Yna, ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol y dadleuon ynglŷn ag ardaloedd Bae Cinmel a Thywyn. Yr oeddem wedi argymhell dros dro y dylai bwrdeistref Colwyn, heb ward Trefnant ond gyda saith ward o ddosbarth Glyndŵr, ffurfio etholaeth o'r enw Clwyd West ac iddi 53,827 o etholwyr. Byddai sedd arall a gynigiwyd gennym yn cynnwys y cyfan o fwrdeistref Rhuddlan gyda ward Trefnant o fwrdeistref Colwyn a phum ward o ddosbarth Glyndŵr. Yr enw a roesom i'r sedd hon oedd Vale of Clwyd. Byddai iddi 53,013 o etholwyr.

71. Cafodd yr argymhellion hyn gefnogaeth dda, ond cawsom yr un faint o wrthwynebiad. Teimlai nifer o wrthwynebwyr inni fetu adlewyrchu yn ein hargymhellion dros dro y cysylltiadau lleol a geir rhwng Bae Cinnel a'r Rhyl. Cyflwynwyd gwrth-gynnig a rôl ward Bae Cinnel yn sedd Vale of Clwyd, gan adael Clwyd West â 50,189 o etholwyr a Vale of Clwyd â 56,651. Pwysleisid bod Bae Cinnel lai na milltir o ganol tref y Rhyl a'i fod wedi ei wahanu o'r dref gan Afon Clwyd ac aber y Foryd. Y Rhyl sy'n darparu'r cyfleusterau siopa agosaf, ac mae ganddi orsaf reilffordd a bysiau, yn ogystal â swyddfeydd llywodraeth. Mae Bae Cinnel a'r Rhyl yn rhannu codau teleffon a phost tebyg ac mae ganddynt yr un papurau newydd lleol. Dadleuid hefyd fod cynnig, unwaith y rhoid caniatâd cynllunio ac i'r arian ddod ar gael, i ddatblygu marina ar ddwy ochr yr aber. Cawsid astudiaeth ymarferoldeb ddiweddar.

72. Dadleuid at hyn y dylai nid yn unig Bae Cinnel ond hefyd ei gymydog Tywyn gael eu trosglwyddo i sedd Vale of Clwyd. Dylid eu cyfnewid am wardiau Dinbych fel y gellid diogelu cysylltiadau hynafol Dinbych a Rhuthun. Ymhellach, ardal ffermio, diwydiant ysgafn a thwristiaeth ydyw. Canlyniad y gwrth-gynnig hwn fyddai sedd Vale of Clwyd ac iddi 51,963 o etholwyr a sedd Clwyd West ac iddi 54,877.

73. Awgrymai gwrth-gynnig arall rannu'r ardal rhwng wardiau arfordirol bwrdeistrefi Colwyn a Rhuddlan, a'r cyffiniau gwledig. Byddai gan y ddwy sedd a gynigid 68,879 a 55,521 o etholwyr. Er y byddai'r anghysondeb rhwng y seddi mor uchel â 13,358, dadleuid y byddai'r etholaethau'n adlewyrchu ymdeimlad o undod.

74. Cyflwynwyd hefyd sawl amrywiad ar y gwrth-gynigion uchod ond daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad nad oedd yr un ohonynt yn sicrhau gwell cysondeb rhwng y seddi na'n hargymhellion dros dro. Ymhellach, teimlai fod ein cynigion yn creu dwy etholaeth gytbwys iawn o ran eu cydberthynas â'r cwota etholiadol ac â'i gilydd. Ymwelodd â'r ardal i asesu'r dadleuon a glywsai yn yr ymchwiliad, ond ni welai unrhyw gyfiawnhad dros wahanu Bae Cinnel na Thywyn oddi wrth eu hawdurdod lleol at ddibenion cynrychiolaeth seneddol. Teimlai nad oedd y ffactorau y dibynnid arnynt i ategu'r gwrth-gynigion yn ddigon cryf i wrthbwysu'r farn honno. Daeth i'r casgliad y dylid mabwysiadu'n hargymhellion dros dro.

75. Cafwyd gwrthwynebiadau eraill ynglŷn ag ardaloedd Trelawnyd a Gwaunysgor, New Broughton a Than-y-fron, a Gwyddelwern a Llandegla, ond ni welai'r Comisiynydd Cynorthwyol unrhyw gysylltiadau lleol na ffactorau eraill a oedd yn ddigon i gyfiawnhau gwro oddi wrth ein hargymhellion dros dro.

76. I grynhoi, felly, derbyniwn, fel y gwnaeth y Comisiynydd Cynorthwyol, y dadleuon a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad ynglŷn â phedair ward Bronington, Marchwial, Owrty'n a Rhiwabon yn Wrecsam Maelor, y penderfynsom argymell eu trosglwyddo o sedd Wrexham fel y'i cynigiwyd gennym a'u cynnwys yn sedd Clwyd South. Teimlem hefyd y dylai tair ward Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt a Gorllewin Gwersyllt yn Wrecsam Maelor gael eu cynnwys yn sedd Wrexham. Ni welem fod angen newid unrhyw rai eraill o'n hargymhellion dros dro.

77. Bu inni felly gyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig, sef:—

Alyn and Deeside CC	57,815
Clwyd South CC	53,963
Clwyd West CC	53,827
Delyn CC	54,713
Vale of Clwyd CC	53,013
Wrexham CC	51,318

78. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion diwygiedig, cawsom 31 o sylwadau yn ystod y mis statudol, ac un ohebiaeth wedi diwedd y cyfnod. O'r rhain, yr oedd 28 o blaid, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Ymwnâi'r gwrthwynebiadau â'r pynciau canlynol:—

- (a) a ddylai ward Llai fod yn sedd Alyn and Deeside neu Wrexham;
- (b) cyfansoddiad sedd Wrexham;
- (c) y gwrth-gynnig ar gyfer sedd arfordirol a sedd amaethyddol tua'r de;
- (d) derbyn tystiolaeth ASau presennol; ac
- (e) a ddylai ward Bae Cinnel fod yn sedd Vale of Clwyd neu sedd Clwyd West.

Bu cynnig hefyd i drosglwyddo ward Llandegla yng Nglyndŵr o etholaeth arfaethedig Clwyd South i Clwyd West.

79. Gyda golwg ar ward Llai, cafwyd gwrthwynebiad a gynhwysai lofnodion 193 o drigolion y ward. Cefnogent oll y farn nad oeddent am golli eu Haelod Seneddol o ganlyniad i'n cynigion. Yn groes i hyn, cawsom naw llythyr oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a groesawai'r cynnig i drosglwyddo Llai i sedd Wrexham. Ni allwn gymryd rhinweddau Aelod presennol i ystyriaeth wrth lunio'n hargymhellion. Yr ydym wedi ystyried y gefnogaeth a gafodd ein hargymhelliad, ac o dan yr amgylchiadau, penderfynsom beidio â diwygio'n hargymhellion diwygiedig ynglŷn â ward Llai.

80. Cawsom un gwrthwynebiad ynglŷn â chyfansoddiad sedd Wrexham. Awgrymid bod ein hargymhellion dros dro yn gwella'r sefyllfa bresennol ond, yn lle'n hargymhellion diwygiedig, y dylem arddel ffiniau'r awdurdodau unedol arfaethedig fel y ffordd orau i wasanaethu pobl yr ardal. Ni ddefnyddiwyd ffiniau awdurdodau unedol gennym am y rhesymau a nodwyd ym mharagraffau 11 i 13 a 17 uchod. At hyn, cafwyd cryn fesur o gefnogaeth i'n hargymhellion diwygiedig ar gyfer ardal Wrecsam a chynigiwn, felly, beidio â gwneud unrhyw addasiadau pellach.

81. Yr oedd dau wrthwynebiad yn ymwneud â'r gwrth-gynnig ynglŷn â sedd arfordirol ar hyd glannau aber Afon Dyfrdwy ac i'r gogledd o ffordd gysylltu'r A55 a sedd amaethyddol, wledig i'r de o'r A55. Credwn i'r gwrth-gynnig gael cyhoeddusrwydd priodol. Mewn sylwadau manwl, dadleuid i dystiolaeth yr ymchwiliad gael ei hanwybyddu neu ei chamddeall gan y Comisiynydd Cynorthwyol. Yn fwyaf arbennig, anwybyddwyd effaith ymrannus yr A55, ynghyd â thystiolaeth arall yn profi hollti. Yr ydym wedi ystyried y pwyntiau hyn ac eraill a wnaed, ynghyd â chasgliadau'r Comisiynydd Cynorthwyol. Ymwelodd ef â'r ardal a soniodd fwy nag unwaith am yr A55 yn ei adroddiad. Yr ydym yn fodlon iddo gadw mewn cof y dystiolaeth o blaid y gwrth-gynnig wrth ddod i'w gasgliad. Yr ydym yn fodlon hefyd na roes bwys amhriodol ar farn ASau presennol. Wedi cymryd i ystyriaeth gysylltiadau lleol, dystiolaeth hanesyddol a safbwyntiau'r rhai a wrthwynebai'r gwrth-gynnig, penderfynodd y Comisiynydd Cynorthwyol beidio â'i argymell. Cytunwyd gennym ninnau wrth dderbyn ei adroddiad, ac wedi ystyried sylwadau pellach, ni welwn unrhyw reswm dros addasu'n hargymhellion diwygiedig ar gyfer seddi Alyn and Deeside, a Delyn.

82. Daeth i law un llythyr yn gresynu wrth y penderfyniad i beidio â throsglwyddo ward Bae Cinnel o sedd Clwyd West i sedd Vale of Clwyd, tra'n cytuno â'r argymhellion diwygiedig yn gyffredinol. Cawsai'r cynnig hwn ei ystyried yn barod a phenderfynwyd gennym beidio ag addasu'n hargymhellion diwygiedig yn y cyswllt dan sylw.

83. Cyn belled ag yr oedd Llandegla yn y cwestiwn, penderfynsom ei bod yn rhy hwyr i gyflwyno dewis arall ar gyfer ardal lle y cafodd ein cynigion eu cefnogi'n gyffredinol.

84. I grynhoi, felly, yr ydym yn fodlon inni archwilio'n ofalus yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro a'r rhai diwygiedig, ynghyd â'r dystiolaeth a roddwyd gerbron y Comisiynydd Cynorthwyol adeg yr ymchwiliad lleol. Nodwn fod cryn fesur o gefnogaeth i'n hargymhellion diwygiedig.

Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig:—

Alyn and Deeside CC	57,815
Clwyd South CC	53,963
Clwyd West CC	53,827
Delyn CC	54,713
Vale of Clwyd CC	53,013
Wrexham CC	51,318

DYFED

85. Ceid 277,140 o etholwyr yn Nyfed ar y dyddiad rhifo. O'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), rhydd y cyfanswm hwn hawl ddamcaniaethol i 4.74 o seddi ar gyfer y sir. Pedair sedd sydd gan Ddyfed ar hyn o bryd, ond pe neilltuid i'r sir bum sedd, 55,428 fyddai nifer yr etholwyr a geid ar gyfartaledd yn etholaethau'r sir (y cyfartaledd sirol). Os parheid i neilltuo pedair sedd i'r sir, byddai'r cyfartaledd sirol, sef 69,285, yn rhy uchel. Penderfynsom dros dro, felly, argymell neilltuo pum sedd i Ddyfed.

86. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer etholwyr y sir oddi ar yr arolwg diwethaf. Mae gan bob un o'r etholaethau presennol niferoedd sydd uwchlaw'r cwota etholiadol. Er na phetrusem rhag argymell y sedd ychwanegol, sylweddolwn y bydd ei chyflwyno, ynghyd â'r gostyngiad canlyniadol yn niferoedd uchel yr etholwyr, yn golygu bod rhai newidiadau o bwys yn anochel o fewn y sir.

87. Mae'r seddi a argymhellwyd dros dro gennym, ac eithrio dosbarth Caerfyrddin, yn cynnwys pob awdurdod dosbarth yn ei grynswth tra'n cadw'r anghysondeb rhwng niferoedd eu hetholwyr i 6,473.

88. Yr enwau, y teitlau a niferoedd yr etholwyr ar y dyddiad rhifo ar gyfer y pum sedd a argymhellwyd dros dro oedd:—

Carmarthen East and Dinefwr CC	53,256
Carmarthen West and South Pembrokeshire CC	55,393
Ceredigion CC	54,467
Llanelli CC	59,729
Preseli Pembrokeshire CC	54,295

89. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom 55 o sylwadau ar gyfer sir Dyfed. O'r rhain, yr oedd deg yn cymeradwyo'n cynigion, saith pellach yn eu cymeradwyo'n rhannol, a 38 yn gwrthwynebu. O dan amodau Adran 6(2) o Ddeddf 1986, ceid gofyniad statudol inni gynnal ymchwiliad lleol i'n hargymhellion dros dro. Cynhaliwyd yr ymchwiliad yng Nghaerfyrddin ar 14 Mehefin 1994 a pharhaodd ddiwrnod cyfan. Drannoeth, ymwelodd y Comisiynydd Cynorthwyol â'r ardaloedd hynny o fewn y sir a drafodwyd yn yr ymchwiliad.

90. Yn ei adroddiad, dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol ei bod yn debygol, ar sail y sylwadau ysgrifenedig, y codai tri phrif bwnc a barai bryder:—

- (a) a ddylai cyn-Sir Benfro ffurfio sail un etholaeth gyfan, ac os na ddylai, sut y dylid rhannu'r gyn-sir honno;
- (b) a ddylai wardiau Tref Caerfyrddin a wardiau gorllewinol dosbarth Caerfyrddin uno â dosbarth De Sir Benfro mewn un etholaeth, neu â rhyw etholaeth neu etholaethau eraill; ac
- (c) a ddylid trosglwyddo ward Cydweli o etholaeth Llanelli.

91. Nid ymddangosai bod neb yn yr ymchwiliad yn hybu trosglwyddo Cydweli o sedd Llanelli, ond serch hynny, fe ystyriwyd a gwrthodwyd y cynnig fel un heb unrhyw gefnogaeth yng Nghydweli ei hun. Fel y digwyddodd, canolbwyntiodd y drafodaeth ar eitemau (a) a (b) uchod. Er bod mwyafrif y rhai a wnaeth sylwadau ysgrifenedig neu lafar yn cefnogi codi nifer y seddi o bedair i bump, dylid sôn bod lleiafrif bach o blaid y *status quo*. Cytunai'r Comisiynydd Cynorthwyol â'n hargymhellion dros dro y dylai fod pum sedd oherwydd nifer yr etholwyr yn Nyfed, a seiliodd ei gasgliadau eraill ar y ffigur hwnnw.

92. Gwnaed cynnig yn yr ymchwiliad y dylai fod un etholaeth ar gyfer Sir Benfro gyfan. Awgrymai cynnig arall rannu Sir Benfro rhwng dwy etholaeth. Nid oedd y naill gynnig na'r llall yn darparu ar gyfer wardiau oddi mewn i ddosbarth Caerfyrddin. Credai cefnogwyr y safbwyntiau hyn fod cyn-Sir Benfro'n dal yn endid y gellid ei ddiffinio'n ddaearyddol ac yn ddemograffig fel ei gilydd, ac y rhoid y gwasanaeth gorau i'w thrigolion trwy drefnu iddynt gael eu cynrychioli naill ai gan un neu ddau Aelod Seneddol.

93. Gwrthododd y Comisiynydd Cynorthwyol y ddau gynnig hyn gan fod nifer etholwyr yr ardal gyfan, gan gynnwys dosbarthau De Sir Benfro a Phreseli Sir Benfro, sef 87,716, yn rhy fawr i gyfansoddi un etholaeth, tra byddai rhannu'r ffigur hwnnw rhwng y ddau ddosbarth yn gwneud un o'r etholaethau, De Sir Benfro, yn rhy fach gyda 33,421 o etholwyr. Byddai unrhyw rannu cyfartal ar etholwyr yr ardal gyfan, gan anwybyddu ffiniau dosbarth, o hyd yn creu dwy sedd ac iddynt niferoedd o etholwyr a fyddai'n sylweddol lai na'r cwota etholiadol.

94. Daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad na fyddai'n briodol neilltuo un na dwy etholaeth gyfan i gyn-Sir Benfro, ond gwelai fod angen ystyried y dadleuon a gyflwynwyd ynglŷn â dosbarth Caerfyrddin cyn penderfynu pa ran o Sir Benfro a weddai orau i uno gyda rhan o ddosbarth Caerfyrddin mewn sedd.

95. Denodd ein hargymhellion dros dro gryn gefnogaeth yn yr ymchwiliad. Cafwyd hefyd wrthwynebiadau iddynt a'r tri phrif wrth-gynnig. Cytunai pawb i'r cynnydd anoche yn nifer y seddi olygu y byddai raid rhannu dosbarth Caerfyrddin. Er nad oedd hyn yn ddelfrydol, nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol mai'r manteision a welid i'n hargymhellion dros dro gyda golwg ar etholaeth Carmarthen West and South Pembrokeshire oedd:—

- (a) agosrwydd nifer yr etholwyr at y cwota etholiadol a'r cyfartaledd sirol;
- (b) natur gryno'r etholaeth yn ddaearyddol;
- (c) y cysylltiadau ffordd a rheilffordd a oedd ar gael o fewn yr etholaeth i gadw ei hardaloedd gyda'i gilydd;
- (d) cyfuno tref gosmopolitaidd, sef Caerfyrddin, â dosbarth cymharol Seinigaidd De Sir Benfro; a'r ffaith
- (e) bod gan etholaeth gyfagos arfaethedig Carmarthen East and Dinefwr nifer tebyg o etholwyr a'i bod hithau'n ddaearyddol gryno, gan gynnwys ardaloedd oedd ag ymdeimlad o undod â'i gilydd.

96. Awgrymai un gwrth-gynnig a gyflwynwyd adeg yr ymchwiliad y dylid trosglwyddo pedair o wardiau Dosbarth Caerfyrddin o sedd Carmarthen West and South Pembrokeshire fel y'i cynigiwyd gennym, yn gyfnewid am saith o wardiau eraill yr un dosbarth. Dadleuid:—

- (a) y byddai'r etholaethau a greid felly â mwy neu lai yr un nifer o etholwyr, a fyddai yn ei dro yn agos i'r cwota etholiadol a'r cyfartaledd sirol;
- (b) y ceid ymdeimlad o undod o fewn pob etholaeth;
- (c) y lleolid tref Caerfyrddin, yn addas ddigon, yn sedd Carmarthen East and Dinefwr, o gofio bod iddi gysylltiadau cryf â'r ardal tua'r dwyrain; a
- (d) y ceid gwrthwynebiad lleol i'r cynnig i uno tref Caerfyrddin â De Sir Benfro.

97. Gan wrthwynebydd arall, fe wrth-gynigid etholaeth seiliedig ar ddosbarth De Sir Benfro ac eithrio dwy o'i wardiau mwyaf dwyreiniol, ond gan gynnwys rhai wardiau o ddosbarth Preseli Sir Benfro, yn enwedig yn ne a gorllewin y dosbarth hwnnw. Dadleuid bod modd ffurfio ail etholaeth o wardiau eraill Preseli Sir Benfro a wardiau ar ochr orllewinol dosbarth Caerfyrddin, gan gynnwys wardiau tref Caerfyrddin ei hun. Honnid y golygai trefniadau o'r fath:—

- (a) y byddai ymdeimlad o undod o fewn pob etholaeth;
- (b) yn fwyaf arbennig, y byddai darnau hanfodol Seisnig De Sir Benfro yn sail i un etholaeth, tra byddai ardaloedd amaethyddol Cymraeg Preseli Sir Benfro a wardiau gorllewin dosbarth Caerfyrddin yn uno'n fodlon; ac
- (c) y byddai tref Caerfyrddin mewn un etholaeth yn unig.

98. Amrywiad ar y gwrth-gynnig uchod oedd y dylid uno'r wardiau ar ochr orllewinol dosbarth Caerfyrddin gyda mwy o Breseli Sir Benfro, gyda'r ffin rhwng yr etholaeth honno ac un seiliedig ar ddosbarth De Sir Benfro yn dilyn rhaniad hanesyddol y "Landsger".

99. Rhoes y Comisiynydd Cynorthwyol ystyriaeth ofalus i'r holl dystiolaeth a daeth i'r casgliad bod tref Caerfyrddin yn ganolbwynt i sir bresennol Dyfed. Yr oedd yn fodlon y gallai etholwyr Caerfyrddin uno'n barod naill ai â'r ardal i'r dwyrain neu â'r ardal i'r gorllewin i ffurfio etholaeth. Teimlai fod cydbwysedd agos iawn rhwng y dadleuon ynglŷn â pha ffordd y dylai'r dref droi, ond credai fod ein hargymhellion dros dro wedi creu sedd ac iddi 55,637 o etholwyr, a oedd yn agos i'r cwota etholiadol a'r cyfartaledd sirol fel ei gilydd. Mae iddi faint a siâp gyfleus, ac mae ganddi rwydweithiau ffordd a rheilffordd da. Teimlai ei bod yn debyg i'r gwrthnyseidd lleol honedig rhwng Caerfyrddin a De Sir Benfro gael ei or-ddweud.

100. Cydnabyddai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod anfantais yn gymaint â bod yr etholaeth arfaethedig yn gwahanu wardiau tref Caerfyrddin oddi wrth wardiau Abergwili a Llangynnwr—ardal y credai ef ei bod yn rhannu ymdeimlad o undod â wardiau'r dref ei hun. Cydnabyddai ymhellach fod i un o'r gwrth-gynigion rinwedd cynhyrchu etholaethau yr oedd niferoedd eu hetholwyr yn agos iawn i'w gilydd. Fodd bynnag, credai fod etholaeth Carmarthen North West and South Pembrokeshire, yn unol â'r gwrth-gynnig, yn gwasanaethu ardal helaeth, gan ymestyn ryw 50 i 60 milltir o'r de-orllewin i'r gogledd-ddwyrain. Ni cheid cysylltiadau ffordd da rhwng ardal wledig y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin, a darn deheuol a de-orllewinol yr etholaeth arfaethedig. Ymhellach, yr oedd yr ardaloedd amaethyddol yng ngogledd a gorllewin y sedd yn cynnwys niferoedd sylweddol o Gymry Cymraeg yr ymddangosai bod ganddynt ychydig iawn o ymdeimlad o undod â dosbarth De Sir Benfro yn ei grynswth.

101. Daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad bod y gwrth-gynnig hwn yn llai boddhaol na'n hargymhellion dros dro. Credai hefyd fod ein cynigion yn well na'r rhai a gynhwysid mewn gwrth-gynnig arall am y byddai etholaeth ar sail nifer o wardiau Preseli Sir Benfro a Chaerfyrddin yn ymestyn o Abergwaun ar arfordir y gorllewin i dref Caerfyrddin yn y dwyrain, gan wasanaethu ardal sylweddol. Ymhellach, byddai ei chanolfannau poblogaeth ar gyrion yr etholaeth ac ni fyddai'r cydgysylltu rhwng y canolfannau hynny'n fater syml. Ni pherchid y ffiniau dosbarth presennol cymaint â ffiniau'n cynigion ni, ac yr oedd yn debygol y byddai niferoedd etholwyr y ddwy etholaeth yn anghytbwys os defnyddid y "Landsger" fel ffin.

102. Daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad, felly, fod ein hargymhellion dros dro ar gyfer sir Dyfed yn well na'r un o'r gwrth-gynigion. Derbyniai fod cryn gydnabyddiaeth yn yr ymchwiliad bod rhannu dosbarth Caerfyrddin yn anochel os nad oedd yn ddelfrydol, ac y dylai'r dewis y penderfynid arno fod yr un a gynhwysai'r lleiaf o anfantais.

103. Cyn belled ag y mae enwau yn y cwestiwn, gwyntyllwyd dau wrth-gynnig yn yr ymchwiliad, ond teimlai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod yr enwau a gynigiwyd gennym ni yn disgrifio ardaloedd y seddi'n gywir—a hynny'n ddaeryddol ac yn nhermau'r dosbarthau a ffurfiai'r seddi. Nid argymhellodd unrhyw newid i'r enwau.

104. Fel y soniwyd uchod, treuliodd y Comisiynydd Cynorthwyol ddiwrnod cyfan yn ymweld â'r rhannau hynny o'r sir a fuasai'n fwyaf dadleuol. O gyfuno'i asesiad o'r sylwadau ysgrifenedig a llafar â'r hyn a dystiodd ef ei hun, argymhellodd weithredu'n hargymhellion dros dro.

105. Penderfynsom dderbyn casgliadau'r Comisiynydd Cynorthwyol. *Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion dros dro:—*

Carmarthen East and Dinefwr CC	53,256
Carmarthen West and South Pembrokeshire CC	55,393
Ceredigion CC	54,467
Llanelli CC	59,729
Preseli Pembrokeshire CC	54,295

GWENT

106. Ar y dyddiad rhifo, ceid 336,602 o etholwyr yn y sir. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 5.75 o seddi. Chwe sedd sydd gan Went ar hyn o bryd a phenderfynsom neilltuo'r un nifer. O neilltuo chwe sedd, ceir cyfartaledd sirol o 56,100. Yr oeddem yn ymwybodol bod nifer yr etholwyr yn sedd Torfaen, sef 61,726, yn sylweddol uwch nag eiddo pum sedd arall y sir, ac o gofio mai 51,577 o etholwyr a geid yn Newport East, y gwahaniaeth rhwng y seddi â'r niferoedd uchaf ac isaf oedd 10,149. Teimlem, fodd bynnag, nad oedd yr anghysondeb rhwng y seddi hyn yn eithriadol o fawr a'i bod yn fuddiol i fwrdeistref Torfaen, heb bedair ward Croesyceiliog a Llanyrafon, barhau i ffurfio sedd.

107. Credem fod gan ward ddosbarth Porthsgiwed yn Nhrefynwy gysylltiadau â rhimyn arfordirol sedd Newport East (gan gynnwys wardiau dosbarth Trefynwy i'r gorllewin o Borthsgiwed), ac argymhellwyd gennym dros dro ei throsglwyddo o sedd Monmouth i sedd Newport East. Nodem fod y gwahaniaeth rhwng niferoedd etholwyr seddi Monmouth a Newport East ar y dyddiad rhifo, sef 8,331, wedi cynyddu'n sylweddol oddi ar yr arolwg cyffredinol diwethaf. Byddai trosglwyddo ward Porthsgiwed yn lleihau'r anghysondeb rhwng y seddi hynny i 5,353, ac anghysondeb y sir i 9,799.

108. Mae nifer yr etholwyr a geir yn Islwyn, sef 51,927, hefyd yn gymharol isel ond teimlem fod hynny'n dderbyniol gan ei bod yn fuddiol i fwrdeistref gyfan Islwyn barhau i ffurfio sedd.

109. Nid argymhellwyd unrhyw newidiadau pellach yng Ngwent. Golygai hyn y byddai pedair o seddi'r sir yn aros yn ddigyfnewid, ac mai ychydig o newid a geid i'r ddwy arall. Canlyniad ein cynigion fyddai pedair sedd yn gyfan gwbl o fewn ffiniau eu bwrdeistrefi; ac ni châi trosglwyddo ward Porthsgiwed unrhyw effaith ar gyfatebiaeth ffiniau dosbarth a ffiniau'r seddi presennol.

110. Enwau a theitlau'r chwe sedd a argymhellwyd dros dro, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo, oedd:—

Blaenau Gwent CC	56,170
Islwyn CC	51,927
Monmouth CC	58,419
Newport East CC	53,066
Newport West CC	55,294
Torfaen CC	61,726

111. Yn sgîl cyhoeddi, nodid mewn sylwadau a ddaeth i law i amryfusedd ddigwydd yng ngeiriad yr hysbysiad newyddion a amlinellai'n hargymhellion dros dro. Dywedai'r hysbysiad, yn anghywir, fod y cyfan o fwrdeistref Torfaen yn ffurfio sedd Torfaen. Y gwir amdani oedd bod pedair o wardiau'r fwrdeistref wedi eu cynnwys yn sedd Monmouth. Digwyddasai'r camgymeriad wrth fwrw drafft yr hysbysiad newyddion ac ni chawsai'n hargymhellion dros dro mo'u llunio ar y sail hon. I egluro'r sefyllfa, trefnwyd gennym i hysbysiad newyddion pellach, o fewn y cyfnod statudol, gael ei ddosbarthu ymhlith pawb a oedd â diddordeb ac a oedd yn adnabyddus i ni, gan roi cyfansoddiad cywir sedd Torfaen. Yn ffodus, nid oedd cyhoeddiad swyddogol yr argymhellion dros dro mewn papurau newydd lleol wedi ailadrodd y gwall.

112. I gyd, cawsom 51 o sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys un ddeiseb. Yr oedd mwyafrif y rhai a wnaeth sylwadau'n gwrthwynebu'n hargymhellion dros dro, yn enwedig gyda golwg ar drosglwyddo ward Porthsgiwed. Fodd bynnag, cyflwynwyd cynnig i ward Caer-went gael ei throsglwyddo yn ogystal â ward Porthsgiwed. Ynglŷn â'r fframwaith sirol presennol, ni chyflwynwyd unrhyw wrth-gynigion yn rhychwantu'r sir gyfan, er i un ohebiaeth awgrymu dewis arall ar sail yr awdurdodau unedol newydd arfaethedig, gan ddefnyddio ffiniau sirol gwahanol. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae gofyniad statudol inni barchu'r ffiniau sirol presennol, a gwnaethom wrthod y gwrth-gynnig.

113. O dan Adran 6(2) o Ddeddf 1986, yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a gafwyd bu raid inni gynnal ymchwiliad lleol. Agorodd yr ymchwiliad hwn yng Nghasnewydd ar 10 Mehefin 1994 a pharhaodd hanner diwrnod.

114. Cyn yr ymchwiliad, daethai tair gohebiaeth bellach i law, yn ymwneud â sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd ynghynt: yr oedd un yn tynnu sylwadau'n ôl; un yn ymhelaethu ar sylwadau; ac un yn egluro sylwadau blaenorol. Trefnwyd i'r rhai oedd yn bresennol yn yr ymchwiliad fod yn gwbl ymwybodol o'r llythyrau hyn.

115. Yn ei adroddiad atom, nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad mai'r materion a godwyd yno, ar wahân i'r gwrth-gynnig seiliedig ar yr awdurdodau unedol newydd arfaethedig, oedd:—

- (a) a ddylid lleihau maint sedd Torfaen neu beidio;
- (b) a ddylid trosglwyddo ward Porthsgiwed o sedd Monmouth i sedd Newport East; ac
- (c) a ddylid cadw ward ddosbarth Caer-went yn sedd Monmouth.

116. Nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol i wrth-gynnig o blaid trosglwyddo wardiau dosbarth Llantarnam a Two Locks o sedd Torfaen i sedd Newport West gael ei gyflwyno er mwyn gostwng nifer etholwyr Torfaen, y credai rhywrai ei fod yn rhy uchel. Gyda'r newidiadau eraill, gwnaed y gwrth-gynnig er mwyn lleihau'r anghysondeb rhwng niferoedd etholwyr o fewn y sir gyfan.

117. Dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod cefnogaeth helaeth i'n hargymhellion o blaid dim newid i sedd Torfaen. Gwelai gysylltiadau gwirioneddol rhwng cymunedau bach Llantarnam a Two Locks a gweddill sedd Torfaen. Yr oedd y rhain o natur, meddai, na fodolai rhwng y ddwy ward hynny a thref Casnewydd. Teimlai y byddai unrhyw newid i sedd Torfaen yn creu cryn anghyfleustra ac yn chwalu cysylltiadau lleol heb unrhyw fudd cyfatebol, ac argymhellodd gan hynny na ddylid addasu'n hargymhelliad dros dro o blaid i sedd Torfaen aros yn ddigynfnewid.

118. Yn ei adroddiad, nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol i nifer sylweddol o etholwyr yn ward Porthsgiwed wrthwynebu'n hargymhelliad dros dro i symud y ward o sedd Monmouth i sedd Newport East. Y dystiolaeth oedd bod sedd Monmouth i raddau helaeth yn amaethyddol ei chymeriad, a bod Porthsgiwed ei hun yn ardal wledig lle'r oedd ffermio'n brif weithgarwch. Gwnaed argraff ar y Comisiynydd Cynorthwyol gan y dystiolaeth hon y teimlai ef ei bod yn arwyddocaol, a nodai mai cefnogaeth brin yn unig a geid i'r newid a gynigiwyd yn ein hargymhellion dros dro.

119. Er y byddai trosglwyddo ward Porthsgiwed o sedd Monmouth i sedd Newport East yn sicrhau gwell canlyniadau rhifyddol, credai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod y lleihau ar unrhyw anghysondeb yn cael ei wrthbwyso gan y chwalfa a berid i gysylltiadau lleol. Daeth i'r casgliad mai ychydig o affinedd sydd gan Borthsgiwed â sedd Newport East, ond bod ganddi gysylltiadau lleol cryf â sedd Monmouth. Argymhellodd gan hynny y dylai'n hargymhellion dros dro i symud ward ddosbarth Porthsgiwed o sedd Monmouth i sedd Newport East gael eu gwrthdroi, ac na ddylai fod unrhyw newid i gyfansoddiad presennol y ddwy etholaeth dan sylw.

120. Nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol yn ei adroddiad fod dadleuon o blaid ac yn erbyn awgrym i drosglwyddo ward Caer-went, yn ychwanegol at drosglwyddiad arfaethedig ward Porthsgiwed, o sedd Monmouth i sedd Newport East. Daeth i'r casgliad bod gan ardal Caer-went gysylltiadau cymuned amlwg â Gwent wledig yn gyffredinol, heb unrhyw gysylltiadau sylweddol â thref Casnewydd, ac y dylai ward Caer-went, felly, aros o fewn sedd Monmouth.

121. Wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd, y safbwyntiau a leisiwyd yn yr ymchwiliad ac adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, penderfynsom dderbyn argymhelliad y Comisiynydd Cynorthwyol o blaid cadw ward Porthsgiwed yn sedd Monmouth, gan ddiwygio, felly, etholaethau Monmouth a Newport East fel y'u hargymhellwyd dros dro gennym. Cytunem â'r Comisiynydd Cynorthwyol hefyd na ddylid newid etholaethau Blaenau Gwent, Islwyn, Newport West na Torfaen fel y'u hargymhellwyd dros dro gennym.

122. Gan hynny, cyhoeddwyd gennym argymhellion diwygiedig i fynd yn ôl i'r ffiniau presennol o fewn y sir, gan addasu'n hargymhellion dros dro ar gyfer dwy sedd fel a ganlyn:—

Monmouth CC	59,908
Newport East CC	51,577

123. Mewn ymateb i'n hargymhellion diwygiedig, cawsom dri llythyr o fewn y cyfnod a bennwyd ar gyfer sylwadau: dau yn cymeradwyo ac un yn seiliedig ar gamddealltwriaeth o ehangder y newidiadau i ffiniau llywodraeth leol yn Neddf 1994. O'r rhai a gymeradwyai, soniai un am y diwygiad a effeithiai ar sedd Monmouth, ac ymwnâi un â'n penderfyniad i beidio â newid sedd Torfaen. Ar ôl y cyfnod priodol, cafwyd llythyr cymeradwyaeth arall ar gyfer Gwent yn ei chyfanrwydd. Ni wrthwynebwyd ein hargymhellion diwygiedig ar gyfer cadw ffiniau presennol y sir, ac yr ydym yn fodlon mai'r trefniadau hyn yw'r rhai mwyaf derbyniol.

Argymhellwn gan hynny fabwysiaidau'n hargymhellion diwygiedig:—

Blaenau Gwent CC	56,170
Islwyn CC	51,927
Monmouth CC	59,908
Newport East CC	51,577
Newport West CC	55,294
Torfaen CC	61,726

GWYNEDD

124. Ceid 188,579 o etholwyr yng Ngwynedd ar y dyddiad rhifo. O'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), mae'r nifer hwn o etholwyr yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 3.22 o seddi. Nodem mai'r hawl ddamcaniaethol adeg y Trydydd Arolwg Cyffredinol oedd 2.99 yn unig, ond oherwydd ystyriaethau daearyddol arbennig, bu i'n rhagflaenwyr neilltuo pedair sedd i'r sir. Derbyniwn fod daearyddiaeth y sir yn gwneud cysylltiadau'n gymharol anodd ac mae hyn, ar y cyd â hawl ddamcaniaethol uwch ers y Trydydd Arolwg Cyffredinol, yn ein darbwylio i neilltuo pedair sedd i'r sir unwaith eto.

125. O neilltuo pedair sedd, ceir cyfartaledd sirol o 47,145, sef rhyw 11,380 islaw'r cwota etholiadol, ond pe buasem wedi argymhell neilltuo tair sedd, byddai'r cyfartaledd sirol, sef 62,860 yn yr enghraifft honno, wedi bod 4,335 uwchlaw'r cwota etholiadol. Nid yw'n syndod, o gofio topograffeg y sir, fod anghysondeb uchel iawn (21,603) rhwng nifer etholwyr y sedd fwyaf, Conwy, sydd â 54,469 o etholwyr, a'r leiaf, Meirionnydd Nant Conwy â 32,866. Mae gan yr etholaeth olaf a enwyd y nifer isaf o etholwyr o holl etholaethau Cymru, o bell ffordd.

126. Rhoesom ystyriaeth ofalus iawn i gyfansoddiad y seddi presennol gan y byddem yn ddelfrydol wedi hoffi gostwng yr anghysondeb er mwyn sicrhau cynrychiolaeth fwy cytbwys yn y Senedd. Fodd bynnag, bu raid inni addef bod etholaeth Ynys Môn yn hunan-gynhaliol, ac iddi nifer o etholwyr oedd yn agos i'r cwota etholiadol. Felly, nid oedd o les i neb i chwalu cyfansoddiad y sedd hon. O'r tair sedd arall, yr oedd nifer etholwyr Conwy'n agos i'r cwota etholiadol a phenderfynsom beidio â newid cyfansoddiad y sedd honno ychwaith. Canlyniad y penderfyniadau hyn oedd dwy etholaeth bellach a fyddai'n sylweddol is na'r cwota etholiadol. Ystyriwyd gennym sawl posibilrwydd ar gyfer newid, ond oherwydd daearyddiaeth yr ardal, ynghyd â'r chwalfa a achosid mewn mannau eraill pe newidдем y ddwy sedd hyn, daethom i'r casgliad mai patrwm presennol y seddi oedd yr un mwyaf derbyniol yng Ngwynedd.

127. Gan hynny, argymhellwyd dros dro gennym ddim newid i'r pedair sedd bresennol. Eu henwau, eu teitlau a niferoedd yr etholwyr a geid ynddynt ar y dyddiad rhifo oedd:—

Caernarfon CC	47,095
Conwy CC	54,469
Meirionnydd Nant Conwy CC	32,866
Ynys Môn CC	54,149

128. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom 27 o sylwadau, a 23 o'r rheiny'n cymeradwyo. O'r gweddill, cawsom ddau wrth-gynnig yn awgrymu cyfansoddiad gwahanol i'r seddi, a dau arall yn dweud y dylsem fod wedi cymryd i ystyriaeth yr awdurdodau unedol arfaethedig a gynhwysid yn Neddf 1994, gan groesi ffiniau sirol.

129. Ni fu raid inni gynnal ymchwiliad lleol i'n hargymhellion dros dro o dan amodau Adran 6(2) o Ddeddf 1986 gan na chynigiwyd gennym unrhyw newid i'r seddi presennol. Fodd bynnag, penderfynsom ddilyn Adran 6(1) o Ddeddf 1986 a chynnal ymchwiliad er mwyn galluogi cefnogwyr a gwrthwynebwyr fel ei gilydd i gael eu gwrandao ar goedd a'n helpu i asesu safbwyntiau. Agorodd yng Nghaernarfon ar 15 Mehefin 1994 a pharhaodd ddiwrnod crwn.

130. Yn ei adroddiad, soniai'r Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad am ddau brif bwnc a godwyd. Yr oedd dau wrth-gynnig yr un fath â'i gilydd o ddwy ffynhonnell yn galw am gyfansoddiad gwahanol i seddi'r sir. Cynigient y dylai un sedd ymgorffori bwrdeistref Aberconwy, y dylai ail sedd gynnwys bwrdeistref Arfon, tra ceid trydedd sedd yn cyfateb i ddosbarthau Dwyfor a Meirionnydd, a phedwaredd yn seiliedig ar fwrdeistref Ynys Môn. Yr unig sedd a gydymffurfiai â'n hargymhellion dros-dro ni oedd sedd Ynys Môn.

131. Y pwnc arall a godwyd yn yr ymchwiliad oedd gwrth-gynnig i ail-linellu ffiniau etholaeth yn gyson â chynigion ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol. Ni fu'r naill na'r llall o'r gwrth-gynigwyr hyn yn bresennol yn yr ymchwiliad, a boed a fo am hynny, daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad bod ad-drefniad arfaethedig awdurdodau lleol yn ffactor sydd yn ffafrio cadw cyfansoddiad presennol y seddi yn fwy na'r newidiadau a gynigid. Ar sail hyn a'r gofyniad statudol y soniwyd amdano uchod, nid oedd gennym unrhyw amheuaeth o gwbl ei bod yn iawn peidio â gweithredu'r gwrth-gynnig dan sylw.

132. Gyda golwg ar y gwrth-gynnig arall, dadleuid:—

- (a) fod bwrdeistref Aberconwy'n ardal effeithiol a chydryw;
- (b) bod cyngor bwrdeistref Aberconwy yn unfrydol eu cefnogaeth i'r gwrth-gynnig;
- (c) bod ardaloedd mewnol bwrdeistref Aberconwy (Nant Conwy) yn dwyn perthynas agosach â'r ardaloedd gyda glan y môr nag ag unrhyw ran o Feirionnydd;
- (d) bod y patrymau cysylltu'n dangos mwy o affinedd rhwng Nant Conwy a'r ardaloedd arfordirol;
- (e) y ceid cysylltiadau hanesyddol cryf iawn rhwng yr arfordir a phentrefi Dyffryn Conwy;
- (f) ei bod yn peri dryswch ac yn weinyddol aneffeithiol i'r dosbarth a'r gweinyddiad fod yn wahanol i'r etholaeth seneddol;
- (g) y ceid cysylltiadau perthnasol rhwng Dwyfor a Meirionnydd i gyfiawnhau iddynt ffurfio un etholaeth seneddol; ac
- (h) y byddai Gwynedd yn cadw pedair sedd ac y perchid y ffin sirol.

Yn groes i'r dadleuon hyn, daliai'r rhai oedd o blaid y *status quo*:—

- (a) fod sefyllfa'r etholaethau presennol yn gweithio'n dda, a'i bod bellach wedi ei chydabod a'i derbyn gan y cyhoedd;
- (b) ei bod yn wir bod gan ardaloedd Nant Conwy a Meirionnydd gydberthynas go iawn, gyda chysylltiadau da oedd i ddod yn well byth;
- (c) bod canlyniadau'r gwrth-gynnig ar gyfer etholaethau eraill y sir yn annerbyniol;
- (d) y byddai sedd Dwyfor/Meirionnydd fel y'i gwrth-gynigid mor fawr ac amrywiol ag i dramgwyddo'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi;
- (e) mewn termau lleol, bod cyngor bwrdeistref Aberconwy ar eu pennau eu hunain yn eu gwrthwynebiad a'u barn;
- (f) bod y pleidiau gwleidyddol a'r cyhoedd yn cefnogi cadw'r *status quo*;
- (g) bod yr anghysondeb presennol rhwng niferoedd etholwyr yn dderbyniol;
- (h) na welsid unrhyw newid yn yr amgylchiadau oddi ar greu'r seddi presennol; ac
- (i) bod etholaeth Meirionnydd Nant Conwy'n gorwedd yn gyfan gwbl o fewn sedd Ewropeaidd.

133. Archwiliodd y Comisiynydd Cynorthwyol y ddwy ochr i'r dadleuon hyn a baratoesid yn drwyadl. I'w helpu i ddod i benderfyniad, ymwelodd â Llanrwst a rhannau eraill o ardal Nant Conwy. Daeth i'r casgliad yn gyffredinol fod cryn foddhad â threfniadau'r etholaethau presennol; y gwelir bod etholaeth Meirionnydd Nant Conwy wedi gweithredu'n foddhaol; bod y gydberthynas rhwng Nant Conwy a Meirionnydd yn agosach na rhwng y ddwy ardal gyfun a gweddill ardal Aberconwy; bod etholaeth bresennol Meirionnydd Nant Conwy'n gweithio'n dda ac na wnaed unrhyw bwynt arall o sylwedd yn ei herbyn, ac eithrio posibilrwydd sicrhau manteision gweinyddol cymharol mewn sedd yn cyfateb i fwrdeistref Aberconwy; na fodolai unrhyw resymau diwrthdro dros uno Dwyfor a Meirionnydd fel sedd; a chan na chyflwynwyd sylwadau gan unrhyw rai o gynghorau cymuned Nant Conwy, nad oedd modd asesu eu barn ynglŷn â'r gwrth-gynnig a gyflwynwyd.

134. Wedi gweld bod cefnogaeth gyffredinol dros gadw pedair etholaeth yng Ngwynedd, ac y dylai Ynys Môn aros yn un ohonynt, daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad bod rhinwedd i'r gwrth-gynnig yn gymaint â sicrhau cyfleustra gweinyddol ffiniau dosbarth ac etholaeth yn cydreded, ond bod anfantais ynghlwm wrth uno dwy ardal oedd yn faterol wahanol. Credai fod yr anfaetision yn gorbwysu'r buddion o gofio'r ymhlygiadau mewn manau eraill yn y sir. Er enghraifft, byddai tiriogaeth sedd arfaethedig Dwyfor/Meirionnydd yn fawr ac ni fyddai iddi ond ychydig o gydberthynas hanesyddol (yn enwedig o'i chymharu â sedd bresennol Caernarfon). Ni chroesewid tranc etholaeth Caernarfon a theimlai y parai aflonyddwch diangen.

135. Daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad na cheid rheswm am newid y seddi presennol a chytunai mai ein hargymhellion dros-dro ni oedd yr ateb mwyaf boddhaol i Wynedd.

136. Yr ydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl ddadleuon a gynhwysid yn y sylwadau ysgrifenedig a thystiolaeth lafar yr ymchwiliad. Yr ydym wedi astudio adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol a daethom i'r casgliad y dylai'n hargymhellion dros dro, a gymeradwywyd gan lawer sydd â diddordeb, gael eu gwneud yn rhai terfynol.

Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion dros dro:—

Caernarfon CC	47,095
Conwy CC	54,469
Meirionnydd Nant Conwy CC	32,866
Ynys Môn CC	54,149

MORGANNWG GANOL

137. Morgannwg Ganol sydd â phoblogaeth fwyaf unrhyw sir yng Nghymru. Ar y dyddiad rhifo, 410,728 o etholwyr a geid yn y sir. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 7.02 o seddi. Saith sedd sydd gan Forgannwg Ganol ar hyn o bryd a phenderfynsom neilltuo'r un nifer y tro hwn. O neilltuo saith sedd, ceir cyfartaledd sirol o 58,675. Mae'r anghysondeb rhwng nifer yr etholwyr yn yr etholaethau mwyaf a lleiaf yn uchel. Mae gan ES Caerphilly 64,995 o etholwyr, o'i chymharu â 50,026 yn ES Cynon Valley, gan roi gwahaniaeth o 14,969 rhwng y ddwy etholaeth.

138. Gan gadw hyn mewn cof, bu raid inni benderfynu a oedd cyfansoddiad y seddi presennol o hyd yn sicrhau cynrychiolaeth gytbwys i'r etholwyr. Cawsom fod angen rhoi ystyriaeth i ddaearyddiaeth yr ardal dymunoldeb cadw hen gymunedau traddodiadol gyda'i gilydd. Mae llawer o'r sir yn weddol fynyddig, gyda thrwch y boblogaeth yn byw yng nghymoedd yr afonydd sy'n llifo o'r gogledd i'r de. Fe'i gwelem yn anodd dros ben i leihau'r anghysondeb rhwng seddi yng ngoleuni'r nodweddion daearyddol, a phenderfynsom felly argymhell dim newid dros dro i'r seddi presennol.

139. Yr oedd enwau a theitlau'r saith sedd a argymhellwyd dros dro, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo, fel a ganlyn:—

Bridgend CC	59,434
Caerphilly CC	64,995
Cynon Valley CC	50,026
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	58,939
Ogmore CC	53,322
Pontypridd CC	63,545
Rhondda CC	60,467

140. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom ddeuddeg o sylwadau, ac un ar ddeg ohonynt yn cefnogi'n cynigion. Yr oedd y llall yn cymeradwyo dwy o'r etholaethau a gynigiwyd gennym ond yn gwrthwynebu cyfansoddiad y pump arall, gan sôn yn lle hynny y byddai gwrth-gynnig seiliedig ar yr awdurdodau unedol newydd arfaethedig oedd i'w cyflwyno o dan delerau Deddf 1994, yn well. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'n statudol ofynnol inni barchu ffiniau sirol presennol yn unig. Gwrthodwyd gennym y gwrth-gynnig hwn na chafodd unrhyw gefnogaeth gyffredinol.

141. Gan mai dyma'r unig wrthwynebiad i'n hargymhellion dros dro ar gyfer Morgannwg Ganol, ac o gofio na chyflwynwyd mohono gan awdurdod lleol oedd â diddordeb, nid oedd raid inni gynnal ymchwiliad lleol ac ni welem unrhyw reswm dros wneud felly.

Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion dros dro:—

Bridgend CC	59,434
Caerphilly CC	64,995
Cynon Valley CC	50,026
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	58,939
Ogmore CC	53,322
Pontypridd CC	63,545
Rhondda CC	60,467

POWYS

142. Ar y dyddiad rhifo, ceid yn y sir 94,625 o etholwyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 1.62 o seddi. Dwy sedd sydd gan Bowys ar hyn o bryd a phenderfynsom neilltuo'r un nifer. O neilltuo dwy sedd, ceir cyfartaledd sirol o 47,313. Yr oeddem yn ymwybodol bod yr anghysondeb rhwng niferoedd etholwyr y ddwy sedd ar y dyddiad rhifo, sef 10,351, yn uchel, ond gan fod yn sir yn ddaearyddol helaeth ac yn rhannol fynyddig a phrin ei phoblogaeth, a chan fod iddi seddi a barchai ffiniau dosbarth, teimlem fod yr anghysondeb o ran niferoedd yn dderbyniol.

143. Penderfynsom gan hynny argymell dros dro ddim newid i'r seddi presennol. Enwau a theitlau'r ddwy sedd a argymhellwyd dros dro, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo, oedd:—

Brecknock and Radnorshire CC	52,488
Montgomeryshire CC	42,137

144. Yn sgîl cyhoeddi, cawsom wyth o sylwadau ysgrifenedig. Ni cheid yn y sylwadau hyn, ar sail ffiniau'r siroedd presennol, unrhyw wrthwynebiad i ffiniau'r etholaethau a argymhellwyd dros dro gennym. Cyflwynwyd gwrthwynebiadau, fodd bynnag, oedd yn seiliedig ar ffiniau'r awdurdodau unedol newydd arfaethedig, a chafwyd gwrthwynebiadau hefyd i enw sedd Brecknock and Radnorshire.

145. Gan inni argymell dros dro ddim newid i ffiniau etholaethau Powys, nid oedd raid inni gynnal ymchwiliad lleol o dan Adran 6(2) o Ddeddf 1986. Fodd bynnag, gwelem fod y gwrthwynebiad i enw un sedd yn ddigon i gyfiawnhau ymchwiliad a phenderfynsom felly roi cychwyn i un o dan amodau Adran 6(1) o Ddeddf 1986. Agorodd yr ymchwiliad hwn yn Llandrindod ar 13 Mehefin 1994, gan barhau am lai na hanner diwrnod.

146. Cyn ac yn ystod yr ymchwiliad, daeth sylwadau ysgrifenedig pellach i law o dair ffynhonnell. Trafodwyd y sylwadau hyn yn llawn yn yr ymchwiliad.

147. Yn ei adroddiad atom, dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad mai'r prif bynciau yno oedd:—

- (a) a ddylai'r cyfan o un ward ddosbarth a darn o un arall yn nosbarth Glyndŵr (Clwyd) gael eu cynnwys yn sedd Montgomeryshire;
- (b) pa sedd y dylid cynnwys ward Llanelly Hill, bwrdeistref Blaenau Gwent (Gwent), ynddi: p'un ai Brecknock and Radnorshire (Powys) neu un o seddi Gwent; ac
- (c) enwi sedd Brecknock and Radnorshire.

148. Yn ei adroddiad, nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwrth-gynnig dros i gymunedau Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn yng Nglyndŵr (Clwyd) gael eu cynnwys o fewn sedd Montgomeryshire yn adlewyrchu ffiniau'r awdurdodau unedol newydd arfaethedig. Derbyniai'r sylwadau a gyflwynwyd, gan argymell, felly, gynnwys y cymunedau hynny yn sedd Montgomeryshire, Powys. Ward ddosbarth Llanrhaeadr-ym-Mochnant a darn o ward ddosbarth Llansilin oedd y tair cymuned hyn.

149. Wedi ystyried y sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd, yr awgrymiadau a leisiwyd yn yr ymchwiliad ac adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, bu inni benderfynu, tra'n derbyn y câi cymunedau Llanrhaeadrym-Mochnant, Llansilin a Llangedwyn eu cyfuno ag awdurdod unedol newydd Powys, na allem argymhell newid o'r fath yn ystod yr arolwg hwn gan y golygai'r addasiad groesi ffin y sir fel y bodolai ar 1 Mehefin 1994, a hynny'n tramgwyddo Rheol 4, ac na ellid yn yr achos dan sylw gymhwyso'n rhesymol unrhyw elfen o'r rhyddid a gyniateid inni gan reolau eraill yn y cyswllt presennol. Cadwem mewn cof hefyd:—

- (a) y ceid "sgîl-effaith" ar o leiaf un o etholaethau Clwyd ac na thrafodwyd y cynnig yn yr ymchwiliad a gynhaliwyd yn flaenorol yn y sir honno, a
- (b) y golygai trosglwyddo cymuned Llansilin rannu ward ddosbarth Llansilin rhwng seddi: byddai hynny'n gwrthdaro â'n polisi cyhoeddedig o beidio â rhannu wardiau dosbarth rhwng seddi.

150. Tra'n cydnabod y fantais i'r dyfodol a ddeilliai o argymhelliad y Comisiynydd Cynorthwyol, penderfynsom na ddylid gwneud unrhyw newid i'r ffin etholaeth bresennol yn yr ardal dan sylw.

151. Nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol safbwyntiau gwahanol ynglŷn â pha sedd a ddylai gynnwys ward ddosbarth Llanelly Hill (cymuned Llanelly) yng Ngwent. Mae ward Llanelly Hill ar hyn o bryd yn nosbarth Blaenau Gwent, ond o fewn sedd Monmouth. Argymhellodd y Comisiynydd Cynorthwyol na ddylid gwneud unrhyw newid i sedd Monmouth ac yr ydym wedi cofnodi o dan bennawd Gwent na welwn unrhyw reswm dros ddiwygio cyfansoddiad sedd bresennol Monmouth. Cytunem, felly, â'r Comisiynydd Cynorthwyol. Nodwn yn y cyswllt hwn fod Deddf 1994 yn rhoi cymuned Llanelly o fewn awdurdod unedol Sir Fynwy.

152. Nodai yn ei adroddiad hefyd i enw sedd Brecknock and Radnorshire gael ei drafod mewn ymchwiliadau lleol ym 1990 a 1991 yn ystod ein harolwg interim diwethaf. Ym 1990, buasai i'r Comisiwn argymhell dros dro gadw'r enw Brecon and Radnor. Yn sgîl gwrthwynebiad i'r cynnig i gadw'r enw hwn yn ymchwiliad 1990, bu inni argymhell newid yr enw i Brecon and Radnorshire. Arweiniodd gwrthwynebiad pellach at ymchwiliad ym 1991, ac yn sgîl hynny, at addasu'r enw i Brecknock and Radnorshire. Ein hargymhelliad dros dro yn ystod yr arolwg hwn oedd cadw'r enw Brecknock and Radnorshire. Yn effro i'r dystiolaeth a gyflwynwyd ym 1990 a 1991, ystyriodd y Comisiynydd Cynorthwyol y dystiolaeth a gyflwynwyd cyn ac yn ystod ymchwiliad yr arolwg hwn, gan nodi yn ei adroddiad fod pedwar enw posibl: Brecknock and Radnorshire, Brecon and Radnor, Brecon and Radnorshire, a Breconshire and Radnorshire.

153. Dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod safbwynt Cyngor Bwrdeistref Brycheiniog wedi newid oddi ar ymchwiliad 1991 ac y byddai ei benderfyniad yn cymryd hynny i ystyriaeth. Gwrthodai'r enw Brecknock and Radnorshire gan mai ychydig o gefnogaeth a oedd iddo bellach. Ni hoffai'r enw Breconshire and Radnorshire ar y sail ei fod yn rhy hir. Er bod yr awgrym i fynd yn ôl i'r enw Brecon and Radnor wedi cael ei gefnogi'n gryf ac eang, nodai fod y cynnig i gynnwys yr enw Radnorshire wedi ei gefnogi gan awdurdod lleol oedd â diddordeb ac y byddai'r enw Brecon and Radnorshire yn fwy derbyniol nag y buasai ym 1991. O gadw hyn mewn cof, argymhellodd, felly, newid enw'r sedd i Brecon and Radnorshire.

154. Cytunem â'r Comisiynydd Cynorthwyol y dylid newid enw sedd Brecknock and Radnorshire i Brecon and Radnorshire, fersiwn y teimlem ei bod yn fwy cyffredinol dderbyniol, er nad o angenrheidrwydd yn ddewis cyntaf i rai cyrff oedd â diddordeb.

155. Cyhoeddwyd gennym gan hynny argymhellion diwygiedig i'r perwyl y dylai enw sedd Brecknock and Radnorshire fel y'i hargymhellwyd dros dro gael ei newid i Brecon and Radnorshire, ac na ddylai fod unrhyw newid arall yn y sir.

156. Mewn ymateb i'n hargymhelliad diwygiedig ar gyfer enw Brecon and Radnorshire, cawsom dri llythyr o fewn y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau. O'r rhain, yr oedd un yn cymeradwyo bod yr enw i gynnwys y gair "Radnorshire", un yn gwrthwynebu'r enw, gan awgrymu yn ei le naill ai Brecon and Radnor neu Breconshire and Radnorshire, ac un heb bryderu ynglŷn â'r enw ond yn gwrthwynebu'n bod heb fabwysiadu argymhelliad y Comisiynydd Cynorthwyol i gynnwys darn o sir bresennol Clwyd o fewn sedd Montgomeryshire ym Mhowys.

157. Teimlem i enw'r etholaeth gael trafodaeth lawn yn yr ymchwiliad, ac er y cydnabyddwn nad yw'r enw diwygiedig yn dderbyniol gan bawb dan sylw, na fyddai cefnogaeth unfrydol i'r un enw. Gan fod y rhai a gyflwynodd sylwadau o ddarn Brycheiniog o'r sedd am weld 'Brecon' yn enw ar eu darn hwy o'r sedd a bod y rhai o Sir Faesyfed am weld 'Radnorshire' yn enw ar eu darn hwy, a chan na cheid consensws, penderfynsom fabwysiadu'r enw Brecon and Radnorshire fel o dan yr argymhellion diwygiedig. Wrth ddod i'n casgliad, cymersom i ystyriaeth hefyd nad yw "Breconshire" yn enw ar awdurdod presennol.

158. Nid oedd y gwrth-gynnig ar gyfer sedd Montgomeryshire wedi ei gefnogi gan unrhyw ddadl newydd, a themllem fod rhaid ei wrthod am y rhesymau a nodwyd ym mharagraff 149.

Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig:—

Brecon and Radnorshire CC	52,488
Montgomeryshire CC	42,137

DE MORGANNWG

159. Ar y dyddiad rhifo, cyfanswm etholwyr y sir oedd 304,785. Mae'r nifer hwn o etholwyr, o'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 5.21 o seddi. Pum sedd sydd gan Dde Morgannwg ar hyn o bryd a phenderfynsom y dylai nifer y seddi aros yr un fath. O neilltuo pum sedd, ceir cyfartaledd sirol o 60,957. Mae'r anghysondeb rhwng niferoedd etholwyr, sef 9,967, yn weddol uchel, a hynny'n bennaf oherwydd bod nifer etholwyr sedd Vale of Glamorgan, 67,190, yn uwch nag eiddo'r un etholaeth arall o fewn y sir. Cardiff North sydd â'r nifer isaf, sef 57,223.

160. Rhoesom ystyriaeth ofalus iawn i'r ffigurau hyn a bu raid inni benderfynu a oedd cyfansoddiad presennol y pum sedd yn sicrhau cynrychiolaeth deg i'r etholwyr, ac a fyddem, trwy leihau maint etholaeth Vale of Glamorgan, yn peri aflonyddwch diangen i gysylltiadau cymuned mewn mannau eraill yn y sir. Penderfynsom na fyddai modd lleihau maint sedd Vale of Glamorgan heb chwalu patrwm presennol y seddi. Ymhellach, nodem mai ychydig iawn o gynnydd a welsid yn yr anghysondeb rhwng niferoedd etholwyr ers creu'r seddi yn sgîl y Trydydd Arolwg Cyffredinol. Daethom i'r casgliad, felly, na fyddai'n briodol argymhell unrhyw newid yng nghyfansoddiad seddi presennol De Morgannwg.

161. Enwau a theitlau'r pum sedd a argymhellwyd dros dro, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo, oedd:—

Cardiff Central BC	58,724
Cardiff North BC	57,223
Cardiff South and Penarth BC	62,216
Cardiff West BC	59,432
Vale of Glamorgan CC	67,190

162. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom 51 o sylwadau, a 21 o'r rheiny'n cymeradwyo'n hargymhellion, 6 yn eu cymeradwyo'n rhannol ond yn gwrthwynebu rhannau eraill, 23 yn gwrthwynebu'n hargymhellion, ac un heb roi barn. Ymwnâi pob gwrthwynebiad ond un â'n penderfyniad i beidio â throsglwyddo ward Sili o sedd Vale of Glamorgan i sedd Cardiff South and Penarth. Yr eithriad oedd gwrth-gynnig o blaid newidiadau i bedair sedd—tair yn Ne Morgannwg, sef Cardiff North, Cardiff South and Penarth, a Vale of Glamorgan, ac un, sef Bridgend, yn cyfuno darn o Dde Morgannwg a darn o Forgannwg Ganol. Seilid y cynigion hyn ar yr awdurdodau unedol newydd a oedd i'w sefydlu o dan Ddeddf 1994. Ni dderbyniem y gwrth-gynnig dan sylw am y rhesymau a grybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad presennol.

163. O dan Adran 6(2) o Ddeddf 1986, nid oedd raid inni gynnal ymchwiliad lleol i'n hargymhellion gan na chynigiwyd gennym unrhyw newid i'r seddi presennol. Serch hynny, bu inni benderfynu, o dan Adran 6(1) o Ddeddf 1986, y dylid cynnal ymchwiliad er mwyn rhoi cyfle i bobl â diddordeb gyflwyno tystiolaeth ar goedd. Agorodd yr ymchwiliad lleol hwn yng Nghaerdydd ar 13 Mehefin 1994, gan barhau hanner diwrnod.

164. Yn ei adroddiad, dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad mai dim ond un mater a godwyd, sef a ddylid lleihau maint etholaeth Vale of Glamorgan trwy drosglwyddo ward Sili i sedd Cardiff South and Penarth. Ceid 3,371 etholwyr yn Sili ar y dyddiad rhifo. Nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol mai canlyniad trosglwyddo'r ward yn unol â'r gwrth-gynnig fyddai sedd Vale of Glamorgan â 63,819 o etholwyr a sedd Cardiff South and Penarth â 65,587. Er bod manteision rhifyddol amlwg ynghlwm wrth drosglwyddo ward Sili, rhoes y Comisiynydd Cynorthwyol ystyriaeth i farn pawb a fu'n bresennol yn yr ymchwiliad, yn ogystal ag i'r sylwadau ysgrifenedig. Clywodd fod nifer o ffactorau cymuned a chynllunio a dueddai i uniaethu Sili â'r Fro wledig ac â thre'r Barri, yn hytrach na Chaerdydd a Phenarth. Cydnabyddai hefyd y byddai trosglwyddo ward Sili'n cynyddu sedd Cardiff South and Penarth i faint heb fod ymhell o eiddo sedd bresennol Vale of Glamorgan, ac mai dyma fyddai sedd fwyaf De Morgannwg o dros 2,000 o etholwyr. Yr oedd un o'r pleidiau gwleidyddol wedi cynnal refferendwm ym mhentref Sili, ac o'r 453 a ymatebodd, yr oedd 435 o blaid cyfansoddiad presennol y seddi. Diffyg yn y refferendwm oedd na chanfasiwyd ardal Parc Larnog sydd â 751 o etholwyr, gan ffurfio rhan o ward Sili.

165. Teg dweud y cafwyd cryn wrthwynebiad i'r argymhellion dros dro. Un pwynt a godwyd yn erbyn oedd bod maint sedd Vale of Glamorgan yn rhy fawr i un AS ei chynrychioli. Fodd bynnag, dywedodd yr AS presennol wrth yr ymchwiliad ei fod yn anghytuno â'r honiad hwn.

166. Gwelai'r Comisiynydd Cynorthwyol gydbwysedd agos rhwng y dadleuon cymunedol. Cyn belled ag yr oedd pentref Sili yn y cwestiwn, teimlai na ffefrid trosglwyddo yn y dadlau. At ei gilydd, daeth i'r casgliad na ddeilliai unrhyw fantais wirioneddol i etholwyr sedd Vale of Glamorgan na sedd Cardiff South and Penarth o drosglwyddo ward Sili, a disgrifiai drosglwyddiad o'r fath fel "on balance . . . a worthless piece of 'tinkering' at the present time". Argymhellodd gan hynny ddim newid i'n hargymhellion dros dro.

167. Wedi ystyried yn ofalus yr holl ddadleuon a gynhwysid yn y sylwadau, ynghyd ag adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, penderfynsom na cheid achos digonol o blaid addasu'n hargymhellion dros dro, ac eithrio i'r graddau yr effeithiwyd arnynt gan The Cardiff and Vale of Glamorgan (Areas) Order 1994.

168. Yr oedd y Gorchymyn hwn yn un o ddau a wnaed yn y sir oddi ar i'n hargymhellion dros dro gael eu cyhoeddi. Mae The Cardiff and Vale of Glamorgan (Areas) Order 1994 wedi trosglwyddo darnau cymharol fach o dir rhwng Dinas Caerdydd a Bwrdeistref Bro Morgannwg. Mae'r trosglwyddo hwn yn effeithio ar ffiniau chwe ward ddosbarth, sy'n cyfateb i ddarn o'r ffin etholaeth rhwng seddi Cardiff West a Vale of Glamorgan. Ein polisi yw peidio â rhannu wardiau dosbarth rhwng etholaethau, ac felly mae'r newidiadau'n peri bod angen ail-linellu'r ffin etholaeth i gydredeg â ffiniau diwygiedig y wardiau dan sylw. Y canlyniad cyffredinol yw trosglwyddo 38 o etholwyr o sedd Vale of Glamorgan i sedd Cardiff West.

169. Gan na wyddid am y newid hwn adeg cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, gwnaethom drefnu iddo gael ei gynnwys yn ein hysbysiad newyddion a soniai am ymchwiliadau lleol ac mewn datganiad a ddosbarthwyd ymhlith holl bresenolion ymchwiliad De Morgannwg. Ni leisiwyd unrhyw sylwadau ynglŷn â'r mater hwn yn yr ymchwiliad ei hun. Bu inni benderfynu, felly, gyhoeddi'r diwygiad bach i gyfansoddiad y ddwy sedd mewn papurau newydd lleol yn yr ardal yn sgîl yr ymchwiliad.

170. Mae Gorchymyn pellach, o dan y teitl The Vale of Glamorgan (Barry and Dinas Powys Communities) Order 1994, wedi trosglwyddo darn bach o dir rhwng cymunedau o fewn Bwrdeistref Bro Morgannwg. Mae'r newid wedi effeithio ar ffiniau dwy ward ddosbarth yn etholaeth Vale of Glamorgan, heb ddylanwadu, felly, ar y ffiniau etholaeth.

171. Gan hynny, bu inni ddiwygio'n hargymhellion dros dro trwy gymryd i ystyriaeth effaith y ddau Orchymyn llywodraeth leol. Niferoedd yr etholwyr yn y ddwy sedd ar ôl ymgorffori'r newidiadau yn sgîl y ddau Orchymyn fyddai:—

Cardiff West BC	59,470
Vale of Glamorgan CC	67,152

172. Dim ond dwy ohebiaeth a gawsom wedi i'n hargymhellion diwygiedig gael eu cyhoeddi, a'r ddwy ohonynt yn cefnogi'n cynigion yn llwyr.

Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion diwygiedig:—

Cardiff Central BC	58,724
Cardiff North BC	57,223
Cardiff South and Penarth BC	62,216
Cardiff West BC	59,470
Vale of Glamorgan CC	67,152

GORLLEWIN MORGANNWG

173. Ar y dyddiad rhifo, ceid 286,849 o etholwyr yn y sir. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â'r cwota etholiadol (58,525), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 4.90 o seddi. Pum sedd sydd gan Orllewin Morgannwg ar hyn o bryd a phenderfynsom neilltuo'r un nifer o seddi. O neilltuo pum sedd, ceir cyfartaledd sirol o 57,370. Yr oeddem yn ymwybodol bod nifer etholwyr sedd Aberavon, sef 52,038, yn sylweddol is na'r niferoedd ym mhedair sedd arall y sir. Teimlem, fodd bynnag, nad oedd yr anghysondeb rhwng y seddi â'r niferoedd uchaf ac isaf o etholwyr, sef 8,060, yn eithriadol o fawr.

174. Gan gadw'r niferoedd a'r anghysonderau hyn mewn cof, yr oedd raid inni ystyried a oedd y manteision a oedd ynghlwm wrth beidio â newid y ffiniau presennol yn gwrthbwysu'r anfanteision a ddeuai yn sgîl nifer isel yr etholwyr yn etholaeth Aberavon. Nid yw'r nodweddion daearyddol na niferoedd mawr yr etholwyr mewn trefi cyfagos i etholaeth Aberavon yn cynnig unrhyw atebion syml yng nghyswllt cynyddu maint yr etholaeth honno. O gofio mai dim ond 3,195 oedd yr anghysondeb rhwng niferoedd etholwyr y pedair sedd arall, credem y byddai unrhyw ddiwygio ar etholaeth Aberavon naill ai'n cynyddu'r anghysondeb hwnnw neu'n golygu newidiadau niferus i'r pedair sedd er mwyn cadw'r anghysondeb yn isel.

175. Er mwyn osgoi unrhyw chwalfa sylweddol, ac am ein bod yn credu nad oedd nifer yr etholwyr yn etholaeth Aberavon yn arbennig o isel, penderfynsom argymhell dros dro ddim newid i'r seddi presennol.

176. Enwau a theitlau'r pum etholaeth a argymhellwyd dros dro, ynghyd â niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo, oedd:—

Aberavon CC	52,038
Gower CC	58,389
Neath CC	56,903
Swansea East BC	59,421
Swansea West BC	60,098

177. Yn sgîl cyhoeddi'n hargymhellion dros dro, cawsom 16 o sylwadau ysgrifenedig, a deg o'r rheiny'n cymeradwyo'n cynigion. O'r gwrthwynebiadau, cafwyd tri gwrth-gynnig yn rhychwantu'r sir gyfan, un gwrth-gynnig ar gyfer ardal benodol, a dau lythyr pellach. Seilid un o'r gwrth-gynigion ar gyfer y sir gyfan ar yr awdurdodau unedol newydd arfaethedig a gyflwynwyd wedyn yn Neddf 1994. Er bod gofyniad statudol inni barchu'r ffiniau sirol presennol, bu modd inni ystyried rhai agweddau ar y gwrth-gynnig hwn yr un fath.

178. Gan nad argymhellwyd unrhyw newid gennym dros dro i ffiniau etholaethau Gorllewin Morgannwg, nid oedd raid inni gynnal ymchwiliad lleol o dan Adran 6(2) o Ddeddf 1986. Fodd bynnag, gwelem fod y gwrthwynebiadau i'r *status quo* yn ddigon i gyfiawnhau ymchwiliad a phenderfynsom gan hynny roi cychwyn i un o dan amodau Adran 6(1) o Ddeddf 1986. Agorodd yr ymchwiliad lleol hwn yn Abertawe ar 1 Mehefin 1994 a pharhaodd ddiwrnod cyfan.

179. Cyn ac yn ystod yr ymchwiliad, gwnaed 33 o sylwadau ysgrifenedig pellach. Cafodd y sylwadau hyn, yr oedd un ohonynt yn wrth-gynnig pellach yn rhychwantu'r sir gyfan, eu trafod yn llawn yn yr ymchwiliad.

180. Yn ei adroddiad atom, nodai'r Comisiynydd Cynorthwyol a gynhaliodd yr ymchwiliad mai'r prif faterion a drafodwyd yno oedd:—

- (a) y gwrth-gynnig y dylai dwy ward ddosbarth Llansawel a thair ward ddosbarth Coed-ffranc fod yn rhan o sedd Neath;
- (b) a ddylai ward ddosbarth Pelenna fod o fewn sedd Aberavon neu sedd Neath; ac
- (c) y pedwar gwrth-gynnig ar gyfer y sir gyfan, a dau o'r rheiny'r un fath â'i gilydd.

181. Er y ceid rhywfaint o gefnogaeth i'r gwrth-gynnig a effeithiai ar wardiau dosbarth Llansawel a Choed-ffranc, yr oedd cryn wrthwynebiad iddo hefyd. Gwelai'r Comisiynydd Cynorthwyol fod y gwrth-gynnig yn creu anghysondeb annerbyniol rhwng niferoedd yr etholwyr yn etholaethau Aberavon a Neath, a rhwng eu niferoedd hwy ac eiddo tair sedd arall y sir.

182. Yr oedd gwrthwynebiad cryf i'r gwrth-gynnig a gynhwysai ward ddosbarth Pelenna yn etholaeth Aberavon. Er y byddai'r cynnig hwn yn cynyddu nifer yr etholwyr yn etholaeth Aberavon i lefel fwy derbyniol, dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol yn ei adroddiad y byddai'r lleihad cyfatebol yn nifer etholwyr Neath yn gwbl annerbyniol. Credai fod y cynnig yn fypwyo ac, o'i weithredu, y câi effaith sylweddol andwyol ar gysylltiadau lleol a'r ymdeimlad o undod o fewn yr ardal.

183. Denwyd cryn wrthwynebiad hefyd gan y pedwar gwrth-gynnig a rychwantai'r sir gyfan, heb unrhyw gefnogaeth o gwbl. Y gwrth-gynigion a gyflwynwyd, a dau ohonynt yr un fath, oedd:—

- (i) ar gyfer sedd Gower yn cynnwys ardal Gŵyr ac yn ymestyn mor bell â ward ddosbarth Uplands yn ninas Abertawe, ynghyd â dwy ward ddosbarth Tre-gŵyr ym mwrdeistref Dyffryn Lliw; ar gyfer dwy sedd i Abertawe, yn cynnwys gweddill dinas Abertawe a'r darn hwnnw o fwrdeistref Dyffryn Lliw sydd ar hyn o bryd yn sedd Gower, ond gan hepgor wardiau Tre-gŵyr; ac ar gyfer dim newid i seddi presennol Aberavon a Neath;

- (ii) ar gyfer sedd Gower yn cynnwys ardal Gŵyr ac yn ymestyn mor bell â ward ddosbarth Sgeti yn ninas Abertawe, ynghyd â dwy ward ddosbarth Tre-gŵyr ym mwrdeistref Dyffryn Lliw; ar gyfer dwy sedd i Abertawe, yn cynnwys gweddill dinas Abertawe a'r darn hwnnw o fwrdeistref Dyffryn Lliw sydd ar hyn o bryd yn sedd Gower, ond gan hepgor wardiau Tre-gŵyr (er yn dilyn llinell wahanol i (i) uchod). Ni chyfeiriwyd at gyfansoddiad y ddwy etholaeth arall; a
- (iii) ar gyfer tair sedd wedi eu ffurfio o awdurdod unedol newydd arfaethedig Abertawe yn unol â chynigion Deddf 1994; ac ar gyfer dwy sedd i'w ffurfio o awdurdod unedol arfaethedig Gorllewin Morgannwg (Castell-nedd a Port Talbot). Cynhwysai hyn roi ward ddosbarth Pelenna, bwrdeistref Nedd, o fewn sedd Aberavon.

184. Dywedai'r Comisiynydd Cynorthwyol yn ei adroddiad fod y gwrth-gynigion hyn yn creu anghydbwysedd annerbyniol rhwng niferoedd yr etholwyr yn y gwahanol etholaethau. Nodai ymhellach fod honiadau y byddai'r etholaethau a gynigid yn hybu cysylltiadau lleol yn seiliedig ar haeriadau cyffredinol yn hytrach na thystiolaeth neilltuo a bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan dystion amrywiol yn eu gwrth-ddweud. O gymryd y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd, yr oedd yn fodlon bod o fewn yr etholaethau ar hyn o bryd gysylltiadau lleol ac ymdeimlad o undod na fyddai'r gwrth-gynigion yn eu gwella. Derbyniai, serch hynny, ei bod yn wir bod rhywfaint o rinwedd i'r gwrth-gynnig a effeithiai ar ward ddosbarth Mayals yn gymaint â bod gan Mayals gysylltiadau ag Abertawe, er troi tua'r Mwmbwls. Nodai fod deuloliaeth o'r fath yn anochel wrth ffurfio etholaethau, ac na ellid mo'i hosgoi yma.

185. Daeth y Comisiynydd Cynorthwyol i'r casgliad nad oedd yn fodlon bod unrhyw ddewis arall yn lle'n hargymhellion dros dro ar gyfer y sir. Yr oedd y rhain wedi denu cryn gefnogaeth o blith y mwyafrif o awdurdodau lleol a chyrrff lleol, ac o blith nifer fawr o unigolion. Argymhellodd gan hynny y dylid mabwysiadu'n hargymhellion dros dro.

186. Wedi ystyried y gwrth-gynigion, y sylwadau a'r gohebiaethau eraill a gyflwynwyd, ynghyd ag adroddiad y Comisiynydd Cynorthwyol, ni welem unrhyw beth i'n darbwyllo y dylid newid ein hargymhellion dros dro.

Argymhellwn gan hynny fabwysiadu'n hargymhellion dros dro:—

Aberavon CC	52,038
Gower CC	58,389
Neath CC	56,903
Swansea East BC	59,421
Swansea West BC	60,098

AIL YMCHWILIADAU—ADRAN 6(3) O'R PARLIAMENTARY CONSTITUENCIES ACT 1986

187. Yr ydym wedi ystyried a oedd eisiau ail ymchwiliad ymhob sir, ond yr ydym yn fodlon nad oedd ymchwiliad o'r fath yn angenrheidiol nac yn briodol yn yr un enghraifft.

EFFEITHIAU'R ARGYMHELLION

188. Gwelir rhestr o'r etholaethau a argymhellwn yn awr (o sir i sir yn nhrefn niferoedd eu hetholwyr) yn Atodiad E(a). Dangosir eu cyfansoddiad, gyda niferoedd eu hetholwyr ar y dyddiad rhifo (9 Tachwedd 1993) yn Atodiad B(b), ynghyd â mynegai yn Atodiad B(a). Mae Atodiad E hefyd yn cynnwys niferoedd yr etholwyr yn yr etholaethau a argymhellir yn ôl eu pellter o'r cwota etholiadol (Atodiad E(b)), ac yn ôl pellter o'r cyfartaledd sirol (Atodiad E(c)). Er mwyn cymharu, rhoir yr etholaethau presennol yn nhrefn eu maint o sir o sir, ac yn ôl pellter o'r cwota etholiadol a'r cyfartaledd sirol, yn Atodiad K(a-c).

Nifer yr Etholaethau

189. Yr ydym wedi argymhell cynnydd o un etholaeth yn siroedd Clwyd a Dyfed fel ei gilydd. Edrychwyd ar y bedwaredd sedd "ychwanegol" a neilltuwyd i Wynedd yn yr arolwg cyffredinol blaenorol oherwydd ystyriaethau daearyddol arbennig (Rheol 6) a daethom i'r casgliad bod y bedwaredd sedd o hyd yn briodol yn wyneb natur topograffeg y sir. Ni welem unrhyw ddewis ymarferol arall ond argymhell cyfanswm o 40 sedd.

190. Yr ydym o'r farn gadarn bod angen newid deddfwriaethol i atal tueddiad tuag i fyny o ran nifer y seddi—tueddiad a achosir yn llwyr gan y rhifydddeg a ddarperir gan y ddeddfwriaeth, fel y soniwyd ym mharagraff 6 uchod. Am drafodaeth fanwl o fethodoleg y cynnydd mewn seddi, gweler Trydydd Adroddiad Cyfnodol Comisiwn Ffiniau Lloegr, Chwefror 1983, Cyfrol Un, Atodiad B (Gorch. 8797-I). Er enghraifft, hyd yn oed os bydd nifer yr etholwyr o dan yr arolwg nesaf (y pumed) yn aros yr un fath ag o dan yr arolwg presennol (y pedwerydd) a chyda'r un dosbarthiad o sir i sir, yr ydym wedi amcangyfrif y bydd y 40 sedd y cynigiwyd eu neilltuo o dan yr arolwg hwn, o gymhwyso Rheol 5 yn gaeth, yn codi i 41. Y rheswm am hyn yw y gostyngid y cwota etholiadol erbyn y pumed arolwg oherwydd rhannu nifer yr etholwyr â nifer uwch o etholaethau yn sgîl neilltuo dwy ychwanegol o dan yr arolwg presennol. Trwy'r un broses, byddai angen neilltuo sedd ychwanegol eto o dan y chweched arolwg.

Nifer yr Etholwyr

191. Argymhellwn etholaethau a chanddynt niferoedd o etholwyr sy'n amrywio o 32,866 i 67,152. Fodd bynnag, mae gan 29 o'r etholaethau arfaethedig niferoedd sydd o fewn 10% i'r cwota etholiadol (gweler Atodiad E(b)). Dim ond tair sedd sydd â niferoedd sy'n fwy na 15% i ffwrdd o'r cwota etholiadol. Mae'r tair hyn islaw'r cwota etholiadol; mae dwy ohonynt yng Ngwynedd, lle y dilynwyd Rheol 6 (ystyriaethau daearyddol arbennig).

Cyberthynas ag etholaethau presennol

192. Mae ffiniau 27 o'r 40 etholaeth a gynigiwn heb newid o'r seddi presennol. Dim ond i adlewyrchu addasiad bach i ffiniau wardiau llywodraeth leol yr argymhellwyd y newid mewn dwy arall. Ni welem reswm da dros addasu cyfansoddiad unrhyw etholaethau yn y chwe sir y neilltuwyd iddynt yr un nifer o seddi ag o'r blaen.

Cyberthynas â Dosbarthau

193. Mae ffiniau un ar ddeg o'r etholaethau a argymhellwn yn cydreddeg â ffiniau dosbarthau, ac mae tair ar ddeg pellach heb eu rhannu rhwng dosbarthau. Mae pedair ar ddeg wedi eu rhannu rhwng dau ddosbarth ac mae un (Vale of Clwyd) yn cynnwys y cyfan o un dosbarth a darnau o ddau arall, tra bo Monmouth yn cynnwys darnau o dri dosbarth.

194. O'r cyfeiriad arall, ni fydd pedwar dosbarth ar bymtheg wedi eu rhannu rhwng etholaethau, bydd pymtheg wedi eu rhannu rhwng dwy etholaeth, dau (Glyndŵr ac Abertawe) wedi eu rhannu rhwng tair etholaeth, ac un (Caerdydd) wedi ei rannu rhwng pedair etholaeth. Yn achos dinasoedd Caerdydd ac Abertawe, nid yw hyn yn syndod oherwydd maint eu poblogaethau.

Cysondeb

195. Cyhoeddwyd mewn hysbysiad newyddion ym mis Hydref 1994 y byddem, cyn cyflwyno'n hadroddiad terfynol, yn dymuno ailasesu'n hargymhellion ar gyfer etholaethau ledled Cymru er mwyn sicrhau ystyriaeth deg a chyson o ardal i ardal. Gwnaethom felly ac yr ydym yn fodlon, ac eithrio lle y mae natur topograffig rhai rhannau o Gymru wedi gorfodi triniaeth arbennig, na chwyd unrhyw anghysondeb.

196. Gyda golwg ar hyn, yr ydym am ailadrodd inni neilltuo sedd ychwanegol i sir Gwynedd oherwydd ystyriaethau daearyddol arbennig. Mae hyn yn cydymffurfio ag argymhellion ein rhagflaenwyr o dan y Trydydd Arolwg Cyffredinol. Canlyniad y sedd ychwanegol yw bod un etholaeth, Meirionnydd Nant Conwy, â nifer isel iawn o etholwyr (32,866), ond gan ei bod yn ardal fynyddig lle y mae cysylltiadau trafniadaeth yn anodd, teimlem fod hyn yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

197. Yr ydym wedi gwirio cysondeb ein hymagwedd yn ôl nifer o feini prawf eraill, gan gynnwys cyfatebiaeth â ffiniau dosbarth, parch i ffiniau sirol, rhaniad wardiau dosbarth rhwng seddi, enwau a theitlau seddi, triniaeth sylwadau, archwiliad argymhellion Comisiynwyr Cynorthwyol, triniaeth Gorchmynion i newid ffiniau llywodraeth leol, a'r ffordd y triniwyd ein hargymhellion diwygiedig a'r sylwadau a ddaeth i law. Ymhob cyswllt felly, credwn fod ein hymagwedd wedi bod yn gyson.

CYFFREDINOL

198. Cafwyd oedi cyn dechrau'r arolwg oherwydd ansicrwydd ynglŷn â'r Local Government (Wales) Bill, ond unwaith inni roi rhybudd am ein bwriad i gychwyn yr arolwg, bu inni symud ymlaen cyn gynted ag y caniateid gan angen rhoi ystyriaeth lawn i'r holl sylwadau a chan gynydd y Mesur trwy'r Senedd. O'r dechrau i'r diwedd, mae'r arolwg wedi cymryd 13 mis i'w gwblhau.

199. Carem ddiolch i'n haseswyr am y cymorth a roesant mewn cyfarfodydd; ac i'n cyfieithydd, y rhoddydd iddo'n aml derfynau amser cyfyng iawn.

200. Ein Hysgrifenyddion fu Mr R McLeod a Mrs J S Morris, y cymerwyd ei lle tua'r diwedd gan Mr G P Utteridge. Cawsant eu cefnogi gan adran ysgrifenyddol fach. Yr ydym yn ddiolchgar iddynt am yr holl waith a wnaethant wrth baratoi deunydd i gael ei ystyried gennym ac wrth sicrhau bod y drefn a osodwyd gennym yn cael ei dilyn. Bu eu cyrhaeddiad yn hynod o gofio'r amserlen fer dros ben a'u cyfrifoldebau eraill.

201. Mae'r Dirprwy Gadeirydd wedi cadeirio'n holl gyfarfodydd yn ystod yr arolwg, ond fel Cadeirydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau, rhoddwyd gwybod i Lefarydd Tŷ'r Cyffredin am bob rhan o'n gwaith wrth i'r arolwg fwrw rhagddo.

Malcolm Pill, *Dirprwy Gadeirydd*

W P Davey

M A McLaggan

R McLeod *Cyd-ysgrifennydd*

G P Utteridge *Cyd-ysgrifennydd*

16 Rhagfyr 1994

ATODIAD A

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI

Atodlen 2 i Parliamentary Constituencies Act 1986

Y Rheolau

- 1.- (1) Ni fydd nifer yr etholaethau ym Mhrydain Fawr yn sylweddol fwy na llai na 613.
 - (2) Ni fydd nifer yr etholaethau yn yr Alban yn llai na 71.
 - (3) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn llai na 35.
 - (4) Ni fydd nifer yr etholaethau yng Ngogledd Iwerddon yn fwy na 18 nac yn llai na 16, a 17 fydd y nifer onid ymddengys i Gomisiwn Ffiniau Gogledd Iwerddon y dylai Gogledd Iwerddon gael ei rannu am y tro yn 16 neu (fel y bo'n briodol) yn 18 o etholaethau.
2. Bydd pob etholaeth yn ethol un aelod yn unig.
3. Parheir i sicrhau etholaeth fydd yn cynnwys y cyfan o Ddinas Llundain ac y bydd ei henw'n cyfeirio at Ddinas Llundain.
- 4.- (1) Cyn belled ag y bydd yn ymarferol o gofio rheolau 1 i 3 —
 - (a) yng Nghymru a Lloegr, —
 - (i) ni chaiff unrhyw sir na rhan o sir ei chynnwys mewn etholaeth sy'n ymgorffori'r cyfan neu ran o unrhyw sir arall neu'r cyfan neu ran o un o fwrdeistrefi Llundain,
 - (ii) ni chaiff unrhyw fwrdeistref yn Llundain nac unrhyw ran o fwrdeistref yn Llundain ei chynnwys mewn etholaeth sy'n ymgorffori'r cyfan neu ran o unrhyw fwrdeistref arall yn Llundain,
 - (b) yn yr Alban, byddir yn ystyried ffiniau ardaloedd awdurdodau lleol,
 - (c) yng Ngogledd Iwerddon, ni chaiff unrhyw ward ei chynnwys yn rhannol mewn un etholaeth ac yn rhannol mewn un arall.
- (2) Yn is-baragraff (1)(b) uchod, mae i "ardal" ac "awdurdod lleol" yr un ystyrion ag o dan The Local Government (Scotland) Act 1973.
5. Bydd nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth mor agos at y cwota etholiadol ag sy'n ymarferol o gofio rheolau 1 i 4; a gall Comisiwn Ffiniau ddewis peidio â gweithredu rheol 4 yn gaeth os ymddengys iddynt hwy bod eisiau hynny er mwyn osgoi anghysondeb eithafol rhwng nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth a'r cwota etholiadol, neu rhwng nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth a'r niferoedd mewn etholaethau cyfagos yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y delir â hi.
6. Gall Comisiwn Ffiniau ddewis peidio â gweithredu rheolau 4 a 5 yn gaeth os ymddengys iddynt hwy bod ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn enwedig faint, siâp a hygyrchedd etholaeth, yn peri bod hynny i'w ddymuno.

Cyffredinol ac Atodol

7. Ni fydd yn ddyletswydd ar Gomisiwn Ffiniau i geisio gweithredu'r rheolau uchod yn llawn bob cynnig, ond byddant yn rhoi ystyriaeth, mor bell ag y gellir gwneud hynny'n rhesymol—
 - (a) i unrhyw anghyfleustra a fo ynghlwm wrth newid etholaethau, ar wahân i newidiadau at ddibenion rheol 4, a
 - (b) i unrhyw gysylltiadau lleol a dorrid gan newidiadau o'r fath.

8. Wrth gymhwyso rheol 5 at bob rhan o'r Deyrnas Unedig y ceir Comisiwn Ffiniau ar ei chyfer—
- (a) ystyr yr ymadrodd “cwota etholiadol” yw'r rhif a geir trwy rannu nifer yr etholwyr yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig â nifer yr etholaethau o'i mewn ar y dyddiad rhifo,
 - (b) ystyr “nifer yr etholwyr” yw—
 - (i) yng nghyd-destun etholaeth, nifer y personau yr ymddengys eu henwau ar gofrestr yr etholwyr seneddol sydd mewn grym ar y dyddiad rhifo o dan Ddeddfau Cynrychiolaeth y Bobl ar gyfer yr etholaeth honno,
 - (ii) yng nghyd-destun y rhan arbennig o'r Deyrnas Unedig, cyfanrif yr etholwyr ymhob etholaeth o fewn y rhan honno yn unol â diffiniad is-baragraff (i) uchod,
 - (c) ystyr yr ymadrodd “dyddiad rhifo”, yng nghyd-destun unrhyw adroddiad gan Gomisiwn Ffiniau o dan y Ddeddf hon, yw dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad sy'n perthyn i'r adroddiad hwnnw, yn unol ag adran 5(1) o'r Ddeddf hon.
9. Yn yr Atodiad hwn, mae cyfeiriad at reol sydd wedi'i ddilyn gan rif yn gyfeiriad at y rheol a osodir yn y paragraff a rifwyd yn gyfatebol o fewn yr Atodiad hwn.

ATODIAD B

(a) MYNEGAI I'R ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR

<i>Enw'r Etholaeth</i>	<i>Sir</i>	<i>Tudalen</i>
Aberavon	Gorllewin Morgannwg	74
Alyn and Deeside	Clwyd	60
Blaenau Gwent	Gwent	64
Brecon and Radnorshire	Powys	70
Bridgend	Morgannwg Ganol	68
Caernarfon	Gwynedd	66
Caerphilly	Morgannwg Ganol	68
Cardiff Central	De Morgannwg	72
Cardiff North	De Morgannwg	72
Cardiff South and Penarth	De Morgannwg	72
Cardiff West	De Morgannwg	72
Carmarthen East and Dinefwr	Dyfed	62
Carmarthen West and South Pembrokeshire	Dyfed	62
Ceredigion	Dyfed	62
Clwyd West	Clwyd	60
Clwyd South	Clwyd	60
Conwy	Gwynedd	66
Cynon Valley	Morgannwg Ganol	68
Delyn	Clwyd	60
Gower	Gorllewin Morgannwg	74
Islwyn	Gwent	64
Llanelli	Dyfed	62
Meirionnydd Nant Conwy	Gwynedd	66
Merthyr Tydfil and Rhymney	Morgannwg Ganol	68
Monmouth	Gwent	64
Montgomeryshire	Powys	70
Neath	Gorllewin Morgannwg	74
Newport East	Gwent	64
Newport West	Gwent	64
Ogmore	Morgannwg Ganol	68
Preseli Pembrokeshire	Dyfed	62
Pontypridd	Morgannwg Ganol	68
Rhondda	Morgannwg Ganol	68
Swansea East	Gorllewin Morgannwg	74
Swansea West	Gorllewin Morgannwg	74
Torfaen	Gwent	64
Vale of Clwyd	Clwyd	60
Vale of Glamorgan	De Morgannwg	72
Wrexham	Clwyd	60
Ynys Môn	Gwynedd	66

(b) YR ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR O SIR I SIR: EU CYFANSODDIAD A NIFEROEDD EU HETHOLWYR AR Y DYDDIAD RHIFO (9 TACHWEDD 1993)

CLWYD

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sëdd	Etholwyr Tach 1993
<p>Alyn and Deeside CC Dosbarth Alun a Glannau Dyfrdwy.</p>	57,815
<p>Clwyd South CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol yn Nosbarth Glyndŵr, sef, Ceiriog Ganol, Gogledd y Waun, De'r Waun, Corwen, Gwyddelwern, Llandegla, Llandrillo, Llangollen, Llangollen Wledig, Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Wrecsam Maelor, sef, Bronington, Brymbo, Bryn-cefn, Cefn, Coed-poeth, Esclusham, Gwenfro, Johnstown, Marchwiall, Mwynglawdd, New Broughton, Owrtyn, Pant, Pen-y-cae, Plasmadog, Ponciau a Rhiwabon.</p>	53,963
<p>Clwyd West CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Colwyn, sef, Betws-yn-Rhos, Colwyn, Dinarth, Eirias, Gele, Glyn, Bae Cinmel, Llanddulas, Llanfair Talhaearn, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Mochdre, Pentre-mawr, Rhiw, Rhos, Tywyn ac Uwchaled;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol yn Nosbarth Glyndŵr, sef, Efenechdyd, Llanarmon-yn-Iâl, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch, Llanynys a Rhuthun.</p>	53,827
<p>Delyn CC Bwrdeistref Delyn.</p>	54,713
<p>Vale of Clwyd CC</p> <p>(i) Ward Trefnant ym Mwrdeistref Colwyn;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol yn Nosbarth Glyndŵr, sef, Dinbych Ganol, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf, Henllan a Llandyrnog;</p> <p>(iii) Bwrdeistref Rhuddlan.</p>	53,013
<p>Wrexham CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Wrecsam Maelor, sef, Gwaunysterfyn, Parc Borrass, Parc Caea, Garden Village, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, Grosvenor, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt, Holt, Gwaunysterfyn Fach, Llai, Maes-y-dre, Marford a Hoseley, Dwyrain Offa, Gorllewin Offa, Queensway, Rhosnesni, Yr Orsedd, Stansty a Whitegate.</p>	51,318

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddwyd gan Borough of Colwyn (Electoral Arrangements) Order 1983
District of Glyndŵr (Electoral Arrangements) Order 1985
Borough of Wrexham Maelor (Electoral Arrangements) Order 1985

DYFED

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sedd	Etholwyr Tach 1993
<p>Carmarthen East and Dinefwr CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol yn Nosbarth Caerfyrddin, sef, Abergwili, Cenarth, Cynwyl Elfed, Gors-las, Llanddarog, Llandyfaelog, Llanfihangel-ar-arth, Llaneler, Llangynnwr, Llangydeyrn, Llanllwni, Llanybydder, Pencarreg a Llanismel;</p> <p>(ii) Bwrdeistref Dinefwr.</p>	53,256
<p>Carmarthen West and South Pembrokeshire CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol yn Nosbarth Caerfyrddin, sef, Gogledd Tref Caerfyrddin, De Tref Caerfyrddin, Gorllewin Tref Caerfyrddin, Clunderwen, Tref Lacharn, Llanboidy, Llanddowror, Llansteffan, Llannewydd, Sanclêr, Tre-lech a Hendy-gwyn;</p> <p>(ii) Dosbarth De Sir Benfro.</p>	55,393
<p>Ceredigion CC Dosbarth Ceredigion.</p>	54,467
<p>Llanelli CC Bwrdeistref Llanelli.</p>	59,729
<p>Preseli Pembrokeshire CC Dosbarth Preseli Sir Benfro.</p>	54,295

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddwyd gan District of Carmarthen (Electoral Arrangements) Order 1987

GWENT

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sedd	Etholwyr Tach 1993
<p>Blaenau Gwent CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Blaenau Gwent, sef, Abertyleri, Badminton, Cendl, Blaenau, Bryn-mawr, Cwm, Cwmtyleiri, Gogledd Glynebwy, De Glynebwy, Georgetown, Llanhilledd, Nant-y-glo, Rasa, Sirhywi, Six Bells a Chanol a Gorllewin Tredegar.</p>	56,170
<p>Islwyn CC Bwrdeistref Islwyn.</p>	51,927
<p>Monmouth CC</p> <p>(i) Ward Llanelly Hill ym Mwrdeistref Blaenau Gwent;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Trefynwy, sef, Caer-went, Cantref, Castell a Grofield, Croesonnen, Crucornau, Goetre Fawr, Lansdown, Larkfield, Llanbadog, Llan-ffwyst Fawr, Llangybi Fawr, Llanofor, Llandeilo Gresynni, Llanwenarth Ultra, Y Maerdy, Llanfihangel Troddi, Overmonnow, Porthsgiwed, Priordy, Rhaglan, Drenwydd Gelli-farch, St. Arvans, St. Christopher's, St. Kingsmark, St. Mary's, Thornwell, Tryleg Unedig, Brynbuga, Vauxhall a Wyesham;</p> <p>(iii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Torfaen, sef, Gogledd Croesyceiliog, De Croesyceiliog, Gogledd Llanyrafon a De Llanyrafon.</p>	59,908
<p>Newport East CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Trefynwy, sef, Castell Caldicot, Llanddewi, Magwyr a Gwndy, Rogiet, Hafren a West End;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Casnewydd, sef, Alway, Beechwood, Langstone, Liswerry, Llan-wern, Ringland, St. Julian's a Victoria.</p>	51,577
<p>Newport West CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Casnewydd, sef, Allt-yr-ynn, Y Betws, Caerllion, Gaer, Graig, Malpas, Maerun, Pillgwenlli, Tŷ-du, Shaftesbury, Stow Hill a Pharc Tredegar.</p>	55,294
<p>Torfaen CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Torfaen, sef, Abersychan, Blaenafon, Bryn-wern, Coedefa, Cwmynys-gou, Fairwater, Greenmeadow, Llantarnam, New Inn Isaf, New Inn Uchaf, Pant-teg, Pontnewydd, Pontnewynydd, Pont-y-pŵl, Snatchwood, St. Cadocs a Phen-y-garn, St. Dials, Trefethin, Two Locks, Cwmbrân Uchaf a Waunfelin.</p>	61,726

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddwyd gan Borough of Blaenau Gwent (Electoral Arrangements) Order 1992
District of Monmouth (Electoral Arrangements) Order 1986
Borough of Newport (Electoral Arrangements) Order 1983
Borough of Torfaen (Electoral Arrangements) Order 1986

GWYNEDD

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sedd	Etholwyr Tach 1993
<p>Caernarfon CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Arfon, sef, Bethel, Y Bontnewydd, Cadnant, Deiniolen, Llanberis, Llandwrog, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Menai (Caernarfon), Peblig, Penisa'r-waun, Pen-y-groes, Seiont, Tal-y-sarn, Waunfawr a'r Felinheli;</p> <p>(ii) Dosbarth Dwyfor</p>	47,095
<p>Conwy CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Aberconwy, sef, Bryn, Bryn-rhys, Caerhun, Capel Ulo, Conwy, Craig-y-don, Degannwy, Ffordd-las, Gogarth, Lafan, Marl, Mostyn, Pandy, Pantyrafon, Penmaenan, Penrhyn, Pen-sarn a Thudno;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Arfon, sef, Deiniol, Dewi, Garth, Gerlan, Gluder, Hendre, Hiracl, Llandygái, Llanllechid/Aber, Marchog, Menai (Bangor), Ogwen, Pentir a Rachub.</p>	54,469
<p>Meirionnydd Nant Conwy CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Aberconwy, sef, Betws-y-coed, Bro Machno, Crwst, Eglwys-bach, Gower, Trefriw ac Uwch Conwy;</p> <p>(ii) Dosbarth Meirionnydd.</p>	32,866
<p>Ynys Môn CC Bwrdeistref Ynys Môn—Isle of Anglesey</p>	54,149

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddwyd gan Borough of Aberconwy (Electoral Arrangements) Order 1984 Borough of Arfon (Electoral Arrangements) Order 1984

MORGANNWG GANOL

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sedd	Etholwyr Tach 1993
<p>Bridgend CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Ogwr, sef, Brackla, Cefncribwr, Coety Uchaf, Corneli, Llangrallo Isaf, Trelales, Morfa, Y Castellnewydd, Y Castellnewydd Uchaf, Yr Hengastell, Dwyrain Porth-cawl, Gorllewin Porth-cawl, Y Pîl a Saint-y-brid.</p>	59,434
<p>Caerphilly CC Y wardiau canlynol yn Nosbarth Cwm Rhymni, sef, Aberbargod, Cwm yr Aber, Bargod, Bedwas a Thretomas, Gilfach, Hengoed, Llanbradach, Machen, Maesycwmer, Morgan Jones, Llancaeac, Penyrheol, St. Cattwg, St. James, St. Martins ac Ystradmynach.</p>	64,995
<p>Cynon Valley CC Bwrdeistref Cwm Cynon.</p>	50,026
<p>Merthyr Tydfil and Rhymney CC (i) Bwrdeistref Merthyr Tudful; (ii) y wardiau canlynol yn Nosbarth Cwm Rhymni, sef, Abertyswg, Cwm y Darren, Moriah, Tredegar Newydd, Pontlotyn, Tir-phil a Thwyncarno.</p>	58,939
<p>Ogmore CC (i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Ogwr, sef, Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Caerau, Llangeinwyr, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg, Nantyffyllon, Nant-y-moel, Tynewydd, Pen-coed, Pontycymer, Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre; (ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Taf-Elái, sef, Brynna, Y Gilfach-goch, Llanharan a Llanhari.</p>	53,322
<p>Pontypridd CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Taf-Elái, sef, Beddau, Pentre'r-eglwys, Cilfynydd, Creigiau, Glyn-coch, Y Graig, Y Ddraenen Wen, Ilan, Tref Llantrisant, Llanilltud Faerdref, Pen-tyrch, Pont-y-clun, Tref Pontypridd, Rhondda, Rhydfelen Ganol, Rhydfelen Isaf, Ffynnon Taf, Tonysguboriau, Ton-teg, Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail, Y Trallwng, Trefforest a Thyn-y-nant.</p>	63,545
<p>Rhondda CC Bwrdeistref Rhondda.</p>	60,467

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddwyd gan Borough of Ogwr (Electoral Arrangements) Order 1985
District of Rhymney Valley (Electoral Arrangements) Order 1985
Borough of Taff-Ely (Electoral Arrangements) Order 1985

DE MORGANNWG

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sedd	Etholwyr Tach 1993
<p>Cardiff Central BC Y wardiau canlynol yn Ninas Caerdydd, sef, Y Sblot Uchaf, Cathays, Cyncoed, Pen-twyn, Plasnewydd a'r Rhath.</p>	58,724
<p>Cardiff North BC Y wardiau canlynol yn Ninas Caerdydd, sef, Gabalfa, Mynyddbychan, Llys-faen a Llaneirwg, Ystum-taf, Llanisien, Rhiwbeina, a'r Eglwys Newydd a Thongwynlais.</p>	57,223
<p>Cardiff South and Penarth BC (i) Y wardiau canlynol yn Ninas Caerdydd, sef, Tre-fiwt, Tre-raens, Llanrhymni, Tredelech, Y Sblot a Hendre; (ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Bro Morgannwg, sef, Alexandra, Cornerswell, Llandochoau, a Stanwell.</p>	62,216
<p>Cardiff West BC Y wardiau canlynol yn Ninas Caerdydd, sef, Caerau, Treganna, Trelái, Tyllgoed, Llandaf, Radur a Sain Ffagan a Glanyrafon.</p>	59,470
<p>Vale of Glamorgan CC Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Bro Morgannwg, sef, Barug, Buttrills, Catwg, Castleland, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud, Llandŵ, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô.</p>	67,152

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddiwyd gan City of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1982
Borough of Vale of Glamorgan (Electoral Arrangements) Order 1982 ac fel y'u diwygiwyd gan
The Cardiff and Vale of Glamorgan (Areas) Order 1994
The Vale of Glamorgan (Barry and Dinas Powys Communities) Order 1994

GORLLEWIN MORGANNWG

Enw, Teitl a Chyfansoddiad y Sedd	Etholwyr Tach 1993
<p>Aberavon CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Nedd, sef, Dwyrain Llansawel, Gorllewin Llansawel, Coed-ffranc Ganol, Gogledd Coed-ffranc a Gorllewin Coed-ffranc;</p> <p>(ii) Bwrdeistref Port Talbot.</p>	52,038
<p>Gower CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Dyffryn Lliw, sef, Clydach, Dwyrain Dulais, Gorseinon Ganol, Dwyrain Gorseinon, Dwyrain Tre-gŵyr, Gorllewin Tre-gŵyr, Graigfelen, Pontybrenin, Llangyfelach, Casllwchwr Isaf, Mawr, Penlle'r-gaer, Penyrheol, Pontarddulais, Tal-y-bont, Casllwchwr Uchaf a Faerdre;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol yn Ninas Abertawe, sef, Llandeilo Ferwallt, Fairwood, Gŵyr, Newton, Ystumllwynarth, Pen-clawdd, Pennard a West Cross.</p>	58,389
<p>Neath CC</p> <p>(i) Y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Dyffryn Lliw, sef, Yr Allt-wen, Cwmllynfell, Godre'r-graig, Gwauncaegurwen, Brynaman Isaf, Pontardawe, Rhos, Trebannws ac Ystalyfera;</p> <p>(ii) y wardiau canlynol ym Mwrdeistref Nedd, sef, Aberdulais, Blaen-gwrach, Gogledd Bryn-coch, De Bryn-coch, Llangatwg, Cimla, Y Creunant, Dyffryn, Glyn-nedd, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Onllwyn, Pelenna, Resolfen, Blaendulais a Thonna.</p>	56,903
<p>Swansea East BC</p> <p>Y wardiau canlynol yn Ninas Abertawe, sef, Bôn-y-maen, Cwmbwrla, Glandŵr, Llansamlet, Treforys, Mynydd-bach, Penderi a St. Thomas.</p>	59,421
<p>Swansea West BC</p> <p>Y wardiau canlynol yn Ninas Abertawe, sef, Castell, Y Cocyd, Dynfant, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Mayals, Sgeti, Townhill ac Uplands.</p>	60,098

Mae'r wardiau y cyfeirir atynt yn ôl fel y'u cyfansoddwyd gan Borough of Lliw Valley (Electoral Arrangements) Order 1986
 Borough of Neath (Electoral Arrangements) Order 1983
 City of Swansea (Electoral Arrangements) Order 1992

ATODIAD C

YR ETHOLAETHAU PRESENNOL A'R FFORDD Y'U RHENNIR RHWNG SIROEDD A DOSBARTHAU

Sir	Etholaeth	Dosbarthau
CLWYD	Alyn and Deeside	Alun a Glannau Dyfrdwy Wrecsam Maelor (rh)
	Clwyd North West	Colwyn (rh) Rhuddlan (rh)
	Clwyd South West	Colwyn (rh) Glyndŵr Wrecsam Maelor (rh)
	Delyn	Delyn Rhuddlan (rh)
	Wrexham	Wrecsam Maelor (rh)
DYFED	Carmarthen	Caerfyrddin Dinefwr (rh)
	Ceredigion Gogledd Penfro	Ceredigion Preseli Sir Benfro (rh)
	Llanelli	Dinefwr (rh) Llanelli
	Pembroke	Preseli Sir Benfro (rh) De Sir Benfro
GWENT	Blaenau Gwent	Blaenau Gwent (rh)
	Islwyn	Islwyn
	Monmouth	Blaenau Gwent (rh) Trefynwy (rh) Torfaen (rh)
	Newport East	Trefynwy (rh) Casnewydd (rh)
	Newport West Torfaen	Casnewydd (rh) Torfaen (rh)
GWYNEDD	Caernarfon	Arfon (rh) Dwyfor
	Conwy	Aberconwy (rh) Arfon (rh)
	Meirionnydd Nant Conwy	Aberconwy (rh) Meirionnydd
	Ynys Môn	Ynys Môn-Isle of Anglesey
MORGANNWG GANOL	Bridgend	Ogwr (rh)
	Caerphilly	Cwm Rhymni (rh)
	Cynon Valley	Cwm Cynon
	Merthyr Tydfil and Rhymney	Merthyr Tudful Cwm Rhymni (rh)
	Ogmore	Ogwr (rh) Taf-Elái (rh)
Pontypridd	Taf-Elái (rh)	
Rhondda	Rhondda	
POWYS	Brecknock and Radnorshire	Brycheiniog Sir Faesyfed
	Montgomeryshire	Sir Drefaldwyn
DE MORGANNWG	Cardiff Central	Caerdydd (rh)
	Cardiff North	Caerdydd (rh)
	Cardiff South and Penarth	Caerdydd (rh) Bro Morgannwg (rh)
	Cardiff West	Caerdydd (rh)
	Vale of Glamorgan	Bro Morgannwg (rh)
GORLLEWIN MORGANNWG	Aberavon	Port Talbot Nedd (rh)
	Gower	Dyffryn Lliw (rh) Abertawe (rh)
	Neath	Dyffryn Lliw (rh) Nedd (rh)
	Swansea East	Abertawe (rh)
	Swansea West	Abertawe (rh)

(rh) = rhan

ATODIAD D(a)

HYSBYSIAD NEWYDDION YNGLŶN AG AMSERIAD YR AROLWG

9 Tachwedd 1993

AROLWG CYFFREDINOL O FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL

Dechrau'r Arolwg

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru'n cyhoeddi heddiw arolwg o ffiniau holl etholaethau seneddol Cymru.
2. Yn ôl The Parliamentary Constituencies Act 1986, fel y'i diwygiwyd gan The Boundary Commissions Act 1992, mae'n ofynnol i'r Comisiwn adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a chyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref erbyn 31 Rhagfyr 1994.
3. Bydd y Comisiwn yn llunio argymhellion dros dro trwy ddilyn y rheolau ar gyfer aildosbarthu seddi a nodir yn Atodlen 2 i'r Parliamentary Constituencies Act 1986. Cyhoeddir rhybudd o'r argymhellion hynny ar fyr o dro mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr etholaethau yr effeithir arnynt, gan nodi ymhle y gellir archwilio manylion yr argymhellion.
4. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys yr hysbysiad newyddion hwn at Ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

5. Yn eu hargymhellion terfynol, mae'r Comisiwn o dan rwymedigaeth statudol (Deddf 1992) i barchu naill ai ffiniau presennol y siroedd neu, os caiff deddfwriaeth ei phasio ar 1 Mehefin 1994 neu cyn hynny, y ffiniau sirol a greir felly. Ni chânt ddefnyddio ffiniau newydd ar gyfer argymhellion dros dro nes cynnwys y ffiniau hynny mewn Mesur y rhoddydd iddo ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin (Adran 3(3) o Ddeddf 1992). Cafodd Papur Gwyn y Llywodraeth, "A Charter for the Future" (Gorch. 2155), gyda chynlluniau ar gyfer ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru, ei gyhoeddi ym Mawrth 1993. Nodai hwnnw fod ffiniau'r siroedd i gael eu cadw at ddibenion y Comisiwn ond eu bod yn debyg o gael eu haddasu. Ystyrir ynddo hefyd greu awdurdodau unedol.
6. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol y byddid yn dyblygu gwaith, gyda dryswch posibl, pe baent yn dechrau'r arolwg cyffredinol ar sail ffiniau'r siroedd presennol, gan orfod ailddechrau gyda chynigion wedi eu seilio ar ffiniau sirol diwygiedig, fel a fyddai'n wir os caiff Deddf i addasu ffiniau sirol ei phasio ar 1 Mehefin 1994 neu cyn hynny. Ymhellach, er nad oes ar y Comisiwn ddyletswydd statudol i roi sylw i ffiniau dosbarth nac i ffiniau arfaethedig awdurdodau unedol (os dânt i fod), yn naturiol byddai'n well gan y Comisiwn ddilyn unedau llywodraeth leol wrth wneud eu hargymhellion. Bydd rheidrwydd ystyried perthnasedd ffiniau awdurdodau unedol, os cânt eu gweithredu trwy ddeddf, yn codi rywdro arall hyd yn oed os bach fydd y newidiadau i ffiniau sirol.
7. Fodd bynnag, oherwydd bod ar y Comisiwn ddyletswydd i gyflwyno'u hadroddiad erbyn 31 Rhagfyr 1994 (Adran 2(2) o Ddeddf 1992) a bod arolwg cyffredinol fel arfer yn cymryd rhyw 14 mis i'w gwblhau, mae'r Comisiwn wedi penderfynu, yn hwyrfydig, ac ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol, na allant oedi dechrau'r arolwg ond eu bod yn rhwym o gymryd camre'n awr i geisio cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol ac i roi cychwyn i'r arolwg. Ni allant wneud rhagdybiaethau ynglŷn â chynnwys unrhyw gynigion ar gyfer newidiadau llywodraeth leol nac ynglŷn â'r ffordd yr aiff y rheiny rhagddynt trwy'r Senedd.
8. Mae darpariaethau Deddf 1992 yn gwneud cychwyn cynnar yn hanfodol ac mae'n ofynnol i hwnnw fod ar sail y ffiniau presennol. Fodd bynnag, gall darpariaethau Adran 3 o'r Ddeddf, ynghyd â chynigion y Papur Gwyn, os cânt eu gweithredu'n gynnar ym 1994 ar eu ffurf gyfredol neu wedi eu haddasu, ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyhoeddi argymhellion dros-dro diwygiedig.
9. Os bydd angen argymhellion dros-dro diwygiedig (ac o gofio rheidrwydd ymgynghori cyhoeddus priodol) mae'n debyg na fydd y Comisiwn mewn safle i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref tan ar ôl 31 Rhagfyr 1994. Gwna'r Comisiwn bob ymdrech i gyflwyno adroddiad mor fuan â phosibl. Ni chaiff yr adroddiad mo'i annilysu os cyflwynir ef ar ôl 31 Rhagfyr 1994 (Adran 2A o'r Parliamentary Constituencies Act 1986, fel y'i hychwanegwyd gan Adran 2(4) o Ddeddf 1992).

ATODIAD D(b)

HYSBYSIAD NEWYDDION YNGLŶN AG AMSERIAD YR AROLWG

25 Mawrth 1994

CYNIGION AR GYFER FFINIAU ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU (4YDD AROLWG CYFFREDINOL)

Mae'r Comisiwn wedi penderfynu aros i'r Local Government (Wales) Bill wneud cynnydd pellach trwy'r Senedd cyn bwrw ymlaen i wneud trefniadau ar gyfer ymchwiliadau lleol i'w hargymhellion dros dro ar gyfer ffiniau etholaethau seneddol yng Nghymru.

Argymhellion dros dro

1. Mae'r Parliamentary Constituencies Act 1986, fel y'i diwygiwyd gan The Boundary Commissions Act 1992, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a chyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol erbyn 31 Rhagfyr 1994.
2. Cyhoeddodd y Comisiwn eu hargymhellion dros dro ar sail ffiniau presennol yr wyth sir gyda'i gilydd mewn hysbysiad newyddion dyddiedig 13 Rhagfyr 1993.

Sylwadau

3. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried sylwadau ynglŷn â'u hargymhellion dros dro os cyflwynir sylwadau o'r fath o fewn mis i'r cyhoeddi lleol. Fodd bynnag, gan fod y cyhoeddi'n agos i'r Nadolig, penderfynwyd estyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau hyd 31 Ionawr 1994.
4. Yr oedd y sylwadau a ddaeth i law yn cynnwys gwrthwynebiadau i argymhellion dros-dro'r Comisiwn ar gyfer pob sir ond Morgannwg Ganol, ac o dan amgylchiadau arferol byddai'r Comisiwn yn mynd ymlaen i gynnal ymchwiliadau lleol yn y siroedd eraill hynny lle'r oedd angen ymchwiliadau neu lle y teimlid eu bod yn addas.
5. Gyda golwg ar y lefel a gyrhaeddwyd gyda thrafodion y Senedd yng nghyswllt The Local Government (Wales) Bill, mae'r Comisiwn wedi penderfynu gohirio unrhyw gyhoeddiad ynglŷn ag ymchwiliadau lleol gan ei bod yn bosibl y bydd raid iddynt gyhoeddi argymhellion dros-dro pellach, ar sail ffiniau "cadw" y siroedd newydd a arfaethir yn y Mesur.

Local Government (Wales) Bill

6. O dan delerau'r Local Government (Wales) Bill sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, sefydlir awdurdodau unedol newydd i ddisodli'r cynghorau dosbarth a sir presennol. Mae telerau Adran 3(7) o Ddeddf 1986 (fel y'u nodir yn Adran 3 o'r Boundary Commissions Act 1992) yn gosod rhwymedigaeth ar i'r Comisiwn barchu yn eu hargymhellion terfynol naill ai ffiniau presennol y siroedd neu, os cymeradwyir The Local Government (Wales) Bill ar 1 Mehefin 1994 neu cyn hynny, y ffiniau sirol a greir gan y Mesur hwnnw. Trwy rinwedd Adran 3(3)b o Ddeddf 1992, mae hawl gan y Comisiwn i gyhoeddi cynigion yn awr.
7. Mae'r Mesur wedi cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, ac mae'r Llywodraeth wedi dweud y caiff diwygiadau eu cyflwyno i gael trafodaeth mewn Pwyllgor. Byddai unrhyw ddiwygiad i'r Mesur yn peri bod angen ei ddychwelyd i Dŷ'r Arglwyddi. Mae felly'n ansicr ar hyn o bryd a gaiff y Mesur ei gymeradwyo ar 1 Mehefin 1994 neu cyn hynny, ac o'i gymeradwyo, ym mha ffurf y bydd hynny.
8. Cred y Comisiwn y byddai'n achosi dryswch ac yn wastraff arian ac adnoddau eraill i gynnal ymchwiliadau lleol ar eu hargymhellion dros dro yn awr, ar sail ffiniau'r siroedd presennol, pe bai raid rhoi heibio iddynt oherwydd i'r Mesur gael ei basio erbyn 1 Mehefin. Yn yr un ffordd ac fel y rhagflaenid ym mhara. 7 o Hysbysiad Newyddion y Comisiwn ar 9 Tachwedd 1993 (y cyplysyr copi ohono er gwybodaeth), ni allant wneud rhagdybiaethau ynglŷn â chynnydd seneddol y cynigion ar gyfer newidiadau llywodraeth lleol. Os na chymeradwyir y Mesur ar 1 Mehefin 1994 neu cyn hynny, neu os caiff ei ddiwygio gan y Senedd, byddai ailgyhoeddi ar sail y darpariaethau presennol yn tynnu yn ei sgîl ailgyhoeddi eto argymhellion dros-dro'r Comisiwn ar rai agweddau. Os a phan ddaw'n glir na chaiff y Mesur mo'i gymeradwyo erbyn 1 Mehefin 1994, sefydlir ymchwiliadau lleol i'r argymhellion dros-dro presennol cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn y siroedd hynny lle y mae eu hangen, a chyhoeddir hysbysiad newyddion pellach i'r perwyl hwnnw. Os daw'n glir y caiff y Mesur ei gymeradwyo erbyn 1 Mehefin, bwriada'r Comisiwn gyhoeddi argymhellion diwygiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar sail y siroedd "cadw" newydd, gan barchu ffiniau'r Awdurdodau Unedol arfaethedig lle y bydd hynny'n briodol.

9. Fel y dywedodd y Comisiwn ym mhara. 9 o'u Hysbysiad Newyddion ar 9 Tachwedd 1993, os bydd eisiau argymhellion dros-dro diwygiedig (a chan gadw mewn cof yr angen am ymgynghori cyhoeddus priodol) mae'n debyg na fydd y Comisiwn mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref tan ar ôl 31 Rhagfyr 1994.

Parchu ffiniau awdurdodau lleol

10. Bydd y Comisiwn yn llunio argymhellion dros dro trwy ddilyn y rheolau ar gyfer ailddosbarthu seddi a nodir yn Atodlen 2 i'r Parliamentary Constituencies Act 1986. Mae Rheol 4 yn pennu na ddylai'r Comisiwn groesi ffiniau sirol mor bell ag y bo hynny'n ymarferol. Ar wahân i'r gofynion statudol ynglŷn â ffiniau sirol, cais y Comisiwn gadw croesi ffiniau awdurdodau lleol eraill mor isel â phosibl wrth lunio'u hargymhellion.

11. Yn olaf, mae'r Comisiwn am sicrhau pawb sydd â diddordeb eu bod yn bwriadu gweithredu'n ddi-oed unwaith y bydd yn bendant pa ffiniau sydd i'w defnyddio ar gyfer gweddill yr Arolwg.

ATODIAD E(c)

YR ETHOLAETHAU A ARGYMHELLIR:
(c) YN ÔL PELLTER O'R CYFARTALEDD SIROL

CLWYD	CYFARTALEDD SIROL	54,108
	<i>Etholwyr</i> (9.11.93)	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
<i>Etholaeth</i>		
Alyn and Deeside CC	57,815	6.9%
Delyn CC	54,713	1.1%
Clwyd South CC	53,963	- 0.3%
Clwyd West CC	53,827	- 0.5%
Vale of Clwyd CC	53,013	- 2.0%
Wrexham CC	51,318	- 5.2%
DYFED	CYFARTALEDD SIROL	55,428
	<i>Etholwyr</i> (9.11.93)	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
<i>Etholaeth</i>		
Llanelli CC	59,729	7.8%
Carmarthen West and South Pembrokeshire CC	55,393	- 0.1%
Ceredigion CC	54,467	- 1.7%
Preseli Pembrokeshire CC	54,295	- 2.0%
Carmarthen East and Dinefwr CC	53,256	- 3.9%
GWENT	CYFARTALEDD SIROL	56,100
	<i>Etholwyr</i> (9.11.93)	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
<i>Etholaeth</i>		
Torfaen CC	61,726	10.0%
Monmouth CC	59,908	6.8%
Blaenau Gwent CC	56,170	0.1%
Newport West CC	55,294	- 1.4%
Islwyn CC	51,927	- 7.4%
Newport East CC	51,577	- 8.1%
GWYNEDD	CYFARTALEDD SIROL	47,145
	<i>Etholwyr</i> (9.11.93)	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
<i>Etholaeth</i>		
Conwy CC	54,469	15.5%
Ynys Môn CC	54,149	14.9%
Caernarfon CC	47,095	- 0.1%
Meirionnydd Nant Conwy CC	32,866	-30.3%
MORGANNWG GANOL	CYFARTALEDD SIROL	58,675
	<i>Etholwyr</i> (9.11.93)	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
<i>Etholaeth</i>		
Caerphilly CC	64,995	10.8%
Pontypridd CC	63,545	8.3%
Rhondda CC	60,467	3.1%
Bridgend CC	59,434	1.3%
Merthyr Tydfil and Rhymney CC	58,939	0.4%
Ogmore CC	53,322	- 9.1%
Cynon Valley CC	50,026	-14.7%
POWYS	CYFARTALEDD SIROL	47,313
	<i>Etholwyr</i> (9.11.93)	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
<i>Etholaeth</i>		
Brecon and Radnorshire CC	52,488	10.9%
Montgomeryshire CC	42,137	-10.9%

DE
MORGANNWG

	CYFARTALEDD SIROL	60,957
<i>Etholaeth</i>	<i>Etholwyr</i> <i>(9.11.93)</i>	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
Vale of Glamorgan CC	67,152	10.2%
Cardiff South and Penarth BC	62,216	2.1%
Cardiff West BC	59,470	- 2.4%
Cardiff Central BC	58,724	- 3.7%
Cardiff North BC	57,223	- 6.1%

GORLLEWIN
MORGANNWG

	CYFARTALEDD SIROL	57,370
<i>Etholaeth</i>	<i>Etholwyr</i> <i>(9.11.93)</i>	<i>Pellter o'r</i> <i>Cyfartaledd Sirol</i>
Swansea West BC	60,098	4.8%
Swansea East BC	59,421	3.6%
Gower CC	58,389	1.8%
Neath CC	56,903	- 0.8%
Aberavon CC	52,038	- 9.3%

ATODIAD F

